Dogfen ir Cyhoedd

**R H A G L E N**

1 **PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 1 - 66)

This page is intentionally left blank

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun 17 Mehefin 2019 at 2.00 pm
Council Chamber - Bodlondeb

# RHAGLEN

1. **Penodi Cadeirydd**

2. **Penodi Is-Gadeirydd**

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

4. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

5. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys.

6. **Diweddariad gan y Prif Gwnstabl (Mr. Carl Foulkes), Heddlu Gogledd Cymru**

7. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

8. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 11)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

9. **Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**

   **a)** Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

   **b)** Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
   **c)** (Tudalennau 12 - 16)

   *(Cyflwynwyd yn unol â'r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)*

   **c)** Rhestr o benderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Tudalennau 17 - 21)

   **d)** Adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**10. Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**a)** Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 22 - 45)

**b)** Adroddiad Cyllid – Alldro 2018/19 (Tudalennau 46 - 50)

**11. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

**a)** Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2018/19 (Tudalennau 51 - 56)

**b)** Adolygiad o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd (Tudalennau 57 - 60)

**c)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 61 - 63)

**12. Amserlen gyfarfod arfaethedig ar gyfer 2019/20**

Dydd Llun, 17/06/19 @ 2.00 pm
Dydd Lun, 30/09/19 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 09/12/19 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 27/01/20 @ 2.00 pm (praesept)
Dydd Mawrth, 04/02/20 @ 10.00 am (Rhag ofn i'r praesept gael ei wrthod)
Dydd Llun, 23/03/20 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Chris Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Dana Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Alan Hunter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Hugh Irving | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Eric Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Peter Read | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Greg Robbins | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Nigel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Arnold Woolley Dip.IM, MCMI | Cyngor Sir y Fflint |

| | |
|---|---|
| Pat Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 28 Ionawr 2019, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor - Bodlondeb, Conwy

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr: Pat Astbury, Chris Bithell, Dana Davies, Capten Matthew Forbes, Alan Hunter, Hugh Irving, Eric Jones, Neville Phillips, Peter Read, Dylan Rees a John Williams

| | |
|---|---|
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig Hefyd yn bresennol: | Y Cynghorwyr: |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | |
| Yn absennol: | Y Cynghorwyr: |

Atgoffodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio’r Gymraeg yn y cyfarfod, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

55. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

56. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint) gysylltiad personol, gan ei fod yn ymddiriedolwr Uned Diogelwch Camdriniaeth Domestig Glannau Dyfrdwy, sy’n manteisio o gyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

57. **MATERION BRYS**

Dim.

58. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

59. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Heddlu a Throsedd a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2018 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2018.**

60. **DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL**

Darparwyd adborth ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2018 fel a ganlyn:

Cofnod 41: Wrth ymateb i gwestiwn gan yr Is-Gadeirydd mewn cysylltiad â phwerau dirprwyedig i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, dywedodd Prif Uwch-Arolygydd Alex Goss wrth y Panel na fyddai hyn yn debyg o ddigwydd tan o leiaf mis Mehefin 2019.

Cofnod 43: Dywedodd Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol y Panel ei fod wedi cynnwys gweithdrefn i ddelio ag amhariadau yng nghyfarfodydd y Panel o fewn Cylch Gorchwyl y Panel; gan mai mân newidiadau oedd y rhain, byddent yn cael eu gwneud o dan awdurdod dirprwyedig.

Cofnod 47: Dywedodd y Cynghorydd Alan Hunter wrth y Panel ei fod o, ynghyd â Pat Astbury a John Williams (Aelodau Annibynnol Cyfetholedig), wedi mynychu cyfarfod gyda'r Uwch-arolygydd Jane Banham i drafod y penderfyniad i dynnu arian yr heddlu yn ôl ar gyfer cydlynydd llawn amser. Eglurodd Uwch-arolygydd Banham wrth Aelodau'r Panel nad oedd y Cynllun BikeSafe wedi dod i ben ac y byddai 4 sesiwn y flwyddyn yn parhau i gael eu cynnal; ac er y byddai cydlynydd llawn amser yn cael ei golli, byddai'r Cynllun yn cael ei redeg gan yr Uned Plismona Traffig.

Cofnod 48: Dywedodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wrth y Panel fod copïau papur o'r Adroddiad Blynyddol wedi cael eu hargraffu a byddant yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Panel ar ôl y cyfarfod.

Cofnod 53: Dywedodd Swyddog Craffu a Gwasanaethau Pwyllgor fod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod o'r Panel ym mis Medi 2019.

61. **CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Yn unol â'r Protocol ar gyfer Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, roedd aelod o'r Panel Heddlu a Throsedd (John Williams) wedi cyflwyno'r cwestiynau canlynol, ac fe ymatebodd y Comisiynydd iddynt fel a ganlyn:

Cwestiwn 1:

*Yn ystod y misoedd diwethaf, mynegwyd pryder yn y wasg genedlaethol a lleol ynglŷn â dwy agwedd o blismona, sef cymorth awyr ac ymchwilio i dwyll, ac mae'n ymddangos bod y ddau ohonynt bellach yn cael eu goruchwylio ar lefel genedlaethol.*

*Dywedodd papur newydd The Times (27/12/18) bod heddlu gwledig yn llawer llai tebygol o ddatrys twyll ac fe wnaethant ddyfynnu cyfraddau cyhuddo o 65% yn Ninas Llundain, Hampshire a Durham o'i gymharu â 6% yn Swydd Gaer a Norfolk.*

*O ran ymchwilio i dwyll yng ngogledd Cymru, oes gan y Llu Gangen Ymchwilio i Dwyll yn dal i fod, ac ydi'r Comisiynydd yn fodlon â lefel y gwasanaeth a roddir i breswylwyr gogledd Cymru mewn cysylltiad ag Ymchwilio i Dwyll?*

Ateb 1.

*Nid oes gan Heddlu Gogledd Cymru dîm llawn amser sydd wedi ymrwymo i ganolbwyntio'n llwyr ar ymchwiliadau twyll.*

*Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r dull ar gyfer ymchwiliadau ariannol a thwyll wedi datblygu'n lleol ac yn genedlaethol. Mae'r system 'action fraud' cenedlaethol bellach yn gyfrifol am alw sylweddol a'r digwyddiadau cysylltiedig mwyaf yn genedlaethol, caiff y system ei chynnal gan heddlu dinas Llundain a chaiff ei adlewyrchu yn eu perfformiad. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru fforwm twyll a gaiff ei arwain gan Dditectif Uwch-arolygydd sy'n ystyried perfformiad lleol yn y maes hwn.*

*Mae gan Heddlu Gogledd Cymru swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig mewn ymchwiliadau ariannol a thwyll sydd wedi'u lleoli'n ganolog ac yn y swyddfeydd Ymchwilio i Droseddau. Eleni, rydym yn bwriadu hyfforddi 10 o swyddogion pellach yn y maes.*
*Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal system brysbennu lle caiff twyllau eu hasesu yn seiliedig ar gymhlethdod a bregusrwydd. Mae arbenigwr trosedd seiber hefyd yn adolygu'r drosedd ac yn penderfynu pa gymorth, cyngor ac opsiynau ataliol y gellir eu rhoi ar waith. Rydym hefyd yn nodi swyddogion Timoedd Plismona Cymdogaeth i ddioddefwyr rhai troseddau gydag agenda ataliol ar waith i fynd i'r afael â cham-fanteisio pellach.*

*Mae gan Heddlu Gogledd Cymru'r opsiwn i geisio adnoddau a chymorth ychwanegol gan Unedau Troseddau Trefnedig Rhanbarthol y Gogledd Orllewin ar gyfer ymchwiliadau twyll cymhleth. Mae'r uned trosedd trefnedig rhanbarthol – Gogledd Orllewin wedi ymrwymo adnoddau i dargedu troseddau o'r fath, a chynhelir cyfarfodydd rhanbarthol yn ogystal er mwyn lledaenu arfer gorau a chynnig cefnogaeth i gymheiriaid. Mae'r tîm adennill asedau o fewn yr uned trosedd trefnedig rhanbarthol wedi arfer adennill POCA presennol a gorchmynion ariannol yn erbyn troseddwyr euog.*

*Rydym wedi rheoli unrhyw dwyll lleol sylweddol yn y maes trosedd hwn drwy ymgynnull arbenigwyr i ffurfio tîm ymroddgar i gwblhau swydd benodol yn ôl y galw. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus hyd yma. Er y byddem yn croesawu adnoddau pellach, nid yw'r achos am dîm twyll*

*ymroddedig mor gryf â'r achos am feysydd risg a thwyll eraill ar hyn o bryd, caiff hyn ei asesu ddwywaith y flwyddyn yn asesiad strategol y llu. Pe bai'r sefyllfa yn newid, yna byddem yn ystyried ailedrych ar ein dull.*

Cwestiwn 2:

*O ran Cymorth Awyr, dywedodd papur newydd lleol yn ddiweddar fod nifer fawr o geisiadau a wnaed gan Heddlu Gogledd Cymru am gymorth awyr wedi cael eu gweithredu. Ydi'r Comisiynydd yn fodlon â lefel y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, a hefyd ydi, neu a ddylai maes awyr Caernarfon gael ei ddefnyddio fwy?*

Dywedodd y Comisiynydd ei fod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o recriwtio Swyddog Twyll penodedig wedi'i leoli yn y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr.

Ateb 2:

*Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mynegi pryderon ynghylch argaeledd cymorth awyr gan wasanaeth awyr cenedlaethol yr heddlu, oherwydd mae gennym nifer o luoedd. Fodd bynnag, mewn hinsawdd o gyni cyllidol parhaus, ni ragwelir y byddai Heddlu Gogledd Cymru byth yn gallu fforddio ymadael â Phartneriaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Cydnabyddir hefyd bod y Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yn faes cymhleth a drud i'w gynnal.*

*Mae'r galw y mae'n rhaid ei fodloni'n yn cynnwys cymorth rheolaidd a chymorth graddfa eang sylweddol yn ystod digwyddiadau difrifol.*
*Caiff dyfodol darpariaeth Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ei drafod yng nghyngor y prif gwnstabl ym mis Ionawr 2019, mae Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yn rhan o'r drafodaeth.*

*Mae nifer o resymau dros y dirywiad ym mhresenoldeb awyrennau, gan gynnwys y tywydd; bod yr awyrennau'n cwblhau tasgau eraill yn seiliedig ar fygythiad, niwed a risg, nid yw awyrennau ar gael o bryd i'w gilydd o ganlyniad i waith cynnal a chadw, ceisiadau anaddas a'r defnydd cynyddol o ddronau.*

*Mae Heddlu Gogledd Cymru yn rhan o Ranbarth y Gogledd Orllewin, sydd â 6 Llu (GMP, Glannau Mersi, Swydd Gaer, Sir Gaerhirfryn, Cymbria a'r Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol). Mae dwy orsaf yn gwasanaethu'r galw yn y Gogledd Orllewin, un yng Ngogledd Cymru ac un ym Manceinion Fwyaf.*

*Fodd bynnag, nid oes ffin i dasgau'r awyrennau, ac mae awyrennau o ranbarthau cyfagos hefyd wedi cael eu hanfon i Ogledd Cymru, er enghraifft, pan gafwyd tanau glaswellt yng Ngwynedd y llynedd, anfonwyd awyren o Orllewin Canolbarth Lloegr, a defnyddiwyd Caernarfon fel gorsaf. Roedd anfon yr asedau awyr hyn yn addas ac yn gymesur dan yr amgylchiadau i gefnogi'r Gwasanaeth Tân ac i amddiffyn y gymuned leol. Nid yw Caernarfon yn orsaf Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, ac mae'n annhebygol o fod yn un o ganlyniad i'r pellter i gyrraedd Lluoedd eraill y Gogledd Ddwyrain yn unol â'r galw disgwyliedig.*

*Ar y cyfan, mae ceisiadau am awyrennau yn gostwng yn genedlaethol, ac nid yw Heddlu Gogledd Cymru yn eithriad o ran y gostyngiad yng ngheisiadau'r gwasanaeth.*

*Mae'r gyfradd yng ngostyngiad yr awyrennau ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru yn iawn. Nid yw'r awyrennau'n mynd i ymateb i bob cais a wneir gan HGC oherwydd rhai o'r rhesymau a amlinellir uchod ac mae nifer y ceisiadau am wasanaeth bob amser yn fwy na'r rhai sy'n cael eu gweithredu.*

*Tasg Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yw cefnogi ceisiadau plismona strategol, troseddau sydd yn digwydd a blaenoriaethau lleol a bydd y ffocws bob amser ar ddigwyddiadau risg uchel ac amddiffyn cymunedau lleol.*

Gan ymateb i ymholiad ynghylch y ganolfan cymorth awyr yn Rhuddlan, dywedodd Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Heddlu Gogledd Cymru bod y ganolfan bellach yn cael ei ddefnyddio i leoli Uned Cŵn yr Heddlu ac yn gyfleuster storio.

62. **ADBORTH GAN AELODAU SY'N GEFNOGWYR**

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr fel a ganlyn;

Cefnogwr Cyllid

Dywedodd y Cynghorydd Dana Davies wrth y Panel ei bod wedi mynychu sesiwn briffio llawn gwybodaeth gyda'r Is-Gadeirydd (Pat Astbury) yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar 4 Ionawr 2019. Yn ogystal, roedd y Comisiynydd wedi gwahodd Aelodau Cynulliad (AC) ac Aelodau Seneddol (AS) i fynychu er mwyn trafod y materion pensiynau a chyllid roedd y Comisiynydd a Heddlu Gogledd Cymru yn eu hwynebu; cafodd y Panel wybod mai dim ond 3 AC a fynychodd y sesiwn.

Cefnogwr yn erbyn Caethwasiaeth Fodern

Dywedodd Pat Astbury (Is-gadeirydd) wrth y Panel ei bod wedi cyfarfod gyda'r Swyddog Craffu a Pholisi (Liz Ward) o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ddiweddar i drafod materion yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern. Yn anffodus, dywedodd yr Is-gadeirydd nad oedd hi wedi gallu mynychu cyfarfod diweddar i ystyried cod ymarfer ar gyfer rheoli'r gadwyn gyflenwi a moeseg.

63. **DIWYGIO BLAENORIAETHAU'R CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ddiwygiadau i Gynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru.

Fel rhan o'r adolygiad canol tymor, roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ystyried yr asesiad o drosedd a wnaed gan yr Heddlu i

ddeall y troseddau a oedd yn cael yr effaith mwyaf a difrifol; yn aml nid cyfaint troseddau, ond y mathau o droseddau a oedd yn llechwraidd o ran natur ac yn absoliwt yn eu heffaith ac yn effeithio'n helaeth ar y rhai oedd fwyaf agored a diamddiffyn.

Yn ogystal â dadansoddi'r troseddau a gofnodwyd, roedd y Comisiynydd wedi ystyried yr hyn roedd y cyhoedd wedi dweud wrtho ar ffurf arolwg ar-lein, a'r troseddau a chanfyddiad am droseddu a oedd yn effeithio arnynt fel unigolion a chymunedau; ar ben hynny roedd y Comisiynydd wedi siarad ag aelodau o'r trydydd sector. Fe nodwyd bod bron i 2000 o ymatebion wedi dod i law trwy'r arolwg ar-lein.

Felly, roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cynnig cynnwys blaenoriaeth drosfwaol 'Gostwng Camfanteisio'n Droseddol ar Bobl Ddiamddiffyn', a fyddai'n plethu trwy'r 5 blaenoriaeth plismona eraill.

Mae cam-fanteisio'n droseddol ar bobl ddiamddiffyn i'w weld mewn modelau troseddau cyfundrefnol (e.e. Llinellau Sirol), caethwasiaeth fodern, camdriniaeth rywiol a throseddu lleol. Yn ystod y blynyddoedd nesaf bydd yn rhaid i atal a diogelu pobl rhag cam-fanteisio troseddol fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru.

Wrth ystyried y diwygiadau, trafododd y Panel y canlynol:

- Yr heriau i fynd i'r afael ag ystent llawn caethwasiaeth fodern, a oedd o ran ei natur yn drosedd gudd, a chodi ymwybyddiaeth mewn cymunedau.
- Cadarnhaodd y Cynghorydd Chris Bithell fod Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru wedi cefnogi'r diwygiadau i'r Cynllun mewn cyfarfod blaenorol.
- Cadarnhaodd y Comisiynydd y byddai'r Llu yn parhau i ddarparu gwasanaethau plismona craidd, megis delio â throsedd gyffredinol a meddiangar (lladrad a byrgleriaeth), yn ogystal â chanolbwyntio ar y blaenoriaethau i ddarparu'r gwasanaeth plismona gorau posibl i bobl gogledd Cymru.
- Yr angen i ymateb i ddatblygiadau mewn technoleg.
- Cyflwyno menter CheckPoint Gogledd Cymru a oedd yn gynllun gwirfoddol sy'n dargyfeirio oedolion sy'n troseddu a'i nod yw mynd i'r afael â'r rhesymau dros droseddu a lleihau'r nifer sydd yn cael cofnod troseddol.

Cefnogodd y Panel y diwygiadau i Gynllun yr Heddlu a Throsedd a chroesawyd mewnbwn oddi wrth gymunedau Gogledd Cymru trwy'r arolwg ar-lein a chwestiynwyd sut byddai adborth yn cael ei roi i'r cymunedau.

Dywedodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd byddai'r Cynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ac ar gael i'r cyhoedd, er byddai'n sicrhau fod copïau'n cael eu dosbarthu i Gynghorau Tref a Chymuned hefyd.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr eu bod yn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer y diwygiadau, a byddent yn cael eu cynnwys fel atodiad i'r Cynllun Heddlu a Throsedd presennol.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod y diwygiadau i'r Cynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru yn cael eu cymeradwyo.**

**(b) Bod copïau o'r Cynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig yn cael eu dosbarthu i Gynghorau Tref a Chymuned yng Ngogledd Cymru.**

## 64. PRAESEPT A THRETH Y CYNGOR 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, oedd yn adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac yn gosod argymhellion ar gyfer praesept a threth cyngor 2019/20.

Gofynnwyd i'r Panel gymeradwyo praesept o £81,030,000 ar gyfer 2019/20, oedd yn golygu cynnydd mewn treth cyngor o 7.74% (a oedd gyfystyr â £278.10 yr wythnos, cynnydd o £19.98 y flwyddyn, neu 38c yr wythnos ar gyfer eiddo band D) a chynnydd mewn praesept o 8.42% o 2018/19.

Roedd y Comisiynydd wedi ystyried pob opsiwn oedd ar gael o fewn yr adnoddau oedd ar gael a thra bod y cyhoeddiad ariannu yn darparu rhywfaint o gyllid ychwanegol, rhoddodd y Swyddfa Gartref hyblygrwydd i'r Comisiynydd gynyddu'r praesept o £24; roedd ffigurau cyfanswm y Swyddfa Gartref yn tybio y byddai'r Comisiynwyr yn gwneud hyn. Serch hynny, roedd y Comisiynydd wedi penderfynu peidio â chynyddu treth y cyngor £24, fel yr argymhellwyd, ond cynnig cynnydd o £19.98 y flwyddyn, a fyddai'n diogelu'r gyllideb ac yn caniatáu buddsoddi mewn swyddi/gwasanaethau rheng flaen.

Dywedodd y Comisiynydd hefyd bod arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan y Panel yn dangos bod 51% o dalwyr treth y cyngor a gymerodd ran o blaid cynnydd o 37c neu fwy, gyda thraean ohonynt yn cefnogi cynnydd llawer uwch o 50c a mwy yr wythnos.

Byddai cynnydd o 7.74% yn golygu y gellir penodi 34 o swyddogion ychwanegol a 6 staff ychwanegol i ganolbwyntio ar fygythiadau newydd megis troseddau difrifol a threfnedig, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, seiber-drosedd, caethwasiaeth fodern, cam-drin domestig a gangiau cyffuriau sydd yn poenydio plant ac oedolion ifanc.

Cafodd y Panel hefyd gyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid, a dynnodd sylw at y canlynol:

- Argymhellion

- Yr angen i barhau i wneud arbedion yn sgil yr ansicrwydd parhaus o ran yr adolygiad o wariant ac adolygu'r fformiwla cyllido.

- Dyraniadau Cyllid
  - Cynnydd o 2.1% o gymharu â 2018/19 (+1.506m), ac un grant pensiynau o £1.582m ond costau pensiwn ychwanegol i Heddlu Gogledd Cymru (£3.670m).
- Cymharu cyllid rhwng 2018/19 a 2019/20
  - Gostyngiad o £582,000 mewn cyllid ar ôl addasu ar gyfer cost pensiwn ychwanegol o £3.670m
- Dosrannau Canolog
  - Brigdorri wedi gostwng y grant craidd a roddir i Heddlu Gogledd Cymru £10.6 miliwn
- Newidiadau yn y gyllideb rhwng 2018/19 a 2019/20
  - Cyllideb arfaethedig ar gyfer 2019/20 – mae angen toriadau o £2.832m

- Risgiau
  - Gallai setliad 2020/21 newid o'r tybiaethau presennol
  - Chwyddiant a chyfrifoldebau newydd
  - Cyhoeddi'r setliad yn hwyr
  - Adolygiad o wariant
  - Fformiwla cyllido newydd posibl yn 2021/22
  - Cyflawni arbedion yn y blynyddoedd i ddod.

Wrth graffu ar y praesept arfaethedig, fe holodd y Panel nifer o gwestiynau, yn enwedig mewn cysylltiad â'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol a'r effaith y gallai hyn ei gael ar blismona yng ngogledd Cymru. Mae'r Llywodraeth fod i gynnal adolygiad o wariant yn 2019/20, a fyddai'n gosod cyllidebau hirdymor i'r heddlu ac ystyried sut mae dyrannu adnoddau'n deg rhwng yr heddluoedd; nid oedd hi'n amlwg a fyddai hyn yn cynnwys adolygiad o'r fformiwla cyllido.

Mynegodd y Panel bryderon hefyd ynghylch y cynnydd yng nghyfraniad cyflogwyr o 2019/20 ar gyfer cynlluniau pensiwn sector gyhoeddus a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar y Cynllun Pensiwn Heddlu a phwysau costau ar gyfer plismona yng ngogledd Cymru. Yn ychwanegol, mynegodd y Panel ei bryderon eto am yr Ardoll Brentisiaethau a'r analluedd i gael gafael ar y cyllid yma yng Nghymru.

Tra bod y Comisiynydd wedi ysgrifennu at yr AS Lleol (Guto Bebb) mewn cysylltiad â'r Ardoll Brentisiaethau, roedd yn gobeithio cwrdd â'r AS i drafod ei bryderon. Yn ogystal, cafodd y Panel wybod fod Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ystyried rhybudd o gynnig yn ddiweddar mewn cysylltiad â chyllid yr heddlu.

Felly, gofynnodd y Panel fod llythyr yn cael ei anfon at CLILC, yn gofyn am gefnogaeth gan Baneli eraill yng Nghymru i lobio Trysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion mewn perthynas â'r materion canlynol:

- Goblygiadau gwerthusiad pensiwn yr heddlu a'r effaith y byddai'n ei gael ar y trethdalwr lleol a gwasanaethau plismona yng Nghymru.
- Yr angen i'r Ardoll Brentisiaethau gael ei ddosbarthu o San Steffan a'i weinyddu trwy'r Coleg Plismona, er mwyn i heddluoedd yng Nghymru gael gafael ar y cyllid ar gyfer y Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu newydd.

Trafododd y Panel y canlynol hefyd:

- Cynyddu capasiti a galluogrwydd gweithredol rhagweithiol - sefydlu tasglu a fyddai'n cael ei arwain yn ganolog.
- Rhaglen Gyfalaf – mae'r strategaeth Ystadau wedi cael ei diweddaru a byddai'n llywio'r Rhaglen Gyfalaf tymor canolig newydd dros y 12 mis nesaf.
    - Gofynnodd y Panel am ddiweddariad am y Strategaeth Ystadau mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer Lloegr a Chymru a derbyn arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
    - Cafodd y Panel wybod bod hyn yn ymwneud â therfyn isaf yr oedd Heddluoedd Dyfed Powys a Gogledd Cymru yn ei dderbyn er mwyn sicrhau bod pob Heddlu yn derbyn yr un cynnydd.
- Ymgyrch recriwtio a'r angen i sicrhau bod yr heddlu yn adlewyrchu'r cymunedau roeddynt yn eu gwasanaethu.

Wrth ystyried y cynnydd arfaethedig o £19.98 y flwyddyn, fe gydnabuodd y Panel fod y Comisiynydd wedi ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng fforddiadwyedd y trethdalwr lleol a sicrhau bod gan y gwasanaeth heddlu ddigon o arian. Cydnabuwyd hefyd bod y Comisiynydd wedi penderfynu peidio â chynyddu'r praesept o £24 fel yr argymhellwyd; wrth gyfrifo cyfanswm y swm ychwanegol posibl a fyddai ar gael i'r Heddlu o'r praesept Treth y Cyngor, roedd y Swyddfa Gartref wedi tybio y byddai pob Llu yn cynyddu eu praesept £24.

Felly am y rhesymau hyn, roedd y Panel yn teimlo y gallent gefnogi'r cynnydd arfaethedig er mwyn galluogi darpariaeth weithredol y gwasanaeth heddlu yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2019/20 a gallu buddsoddi yn y Rhaglen Gwelliant Gweithredol (OIP), gyda 34 swyddog a 6 staff ychwanegol.

Gofynnwyd bod diweddariad am y buddsoddiad ychwanegol i gyflawni'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol yn cael ei ddarparu i'r Panel ar adeg briodol, ond cyn i'r praesept 2020/21 gael ei ystyried.

**(a) Bod y praesept yn cael ei gynyddu i £81,030,000 ar gyfer 2019/20.**

- **Bydd hyn yn cynyddu treth y cyngor o 7.74% - mae hyn yn gyfystyr â £278.10 y flwyddyn, cynnydd o £19.98 y flwyddyn, neu 38c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.**
- **Mae hyn yn gynnydd mewn praesept o 8.42% o 2018/19**

**(b) Nodi bod £2.832m o arbedion wedi eu nodi ar gyfer 2019/20.**

**(c) Nodi y bydd £2.793m o'r arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau rheng flaen.**

**(d) Nodi y bydd £2.614m arall yn cael ei fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen o'r cynnydd ychwanegol mewn praesept.**

**(e) Nodi bod y cynnydd chwyddiant uwch na'r disgwyl o £5.223m yn deillio'n rhannol o'r penderfyniadau a wnaed gan y Llywodraeth o ran costau pensiwn y sector cyhoeddus.**

**(f) Nodi bod y cynnydd arfaethedig i dreth y cyngor yn llawer is na lefel y Swyddfa Gartref sef £24.**

**(g) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol:**

- **Bydd y Cyngor Treth yn cynyddu oddeutu 7.74% yn 2019/20, a 4.32% yn 2020/21, 4.14% yn 2021/22 a 3.97% yn 2022/23 a 3.82% yn 2023/24.**
- **Bydd grantiau plismona'n aros ar y lefelau presennol yn 2021/21 a thu hwnt.**
- **Bydd dyfarniadau cyflog blynyddol yn 2% o fis Medi 2019.**
- **Bydd costau ychwanegol o ran y Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu (PEDQF) newydd o 2020-21, a ni chaiff ei ariannu gan yr Ardoll Brentisiaethau yng Nghymru.**

**(h) Bod diweddariad am y buddsoddiad ychwanegol i gyflawni'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol yn cael ei ddarparu i'r Panel ar adeg priodol, ond cyn i'r praesept 2020/21 gael ei ystyried.**

**(i) Bod y Panel yn ysgrifennu at CLILC, yn gofyn am gefnogaeth gan Baneli eraill yng Nghymru i lobio Trysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion mewn perthynas â'r materion canlynol:**

- **Goblygiadau gwerthusiad pensiwn yr heddlu a'r effaith y bydd hyn yn ei gael ar y trethdalwr lleol ac ar y gwasanaethau plismona yng Nghymru.**
- **Yr angen i'r Ardoll Brentisiaethau gael ei ddosbarthu o San Steffan a'i weinyddu trwy'r Coleg Plismona, er mwyn i heddluoedd yng Nghymru gael gafael ar y cyllid ar gyfer y Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu newydd.**

65. **COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD A PHRIF GWNSTABL HEDDLU GOGLEDD CYMRU - CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG**

Tud 10 Ystyriwyd yr eitem hon fel rhan o Gofnod 64 uchod - Praesept a Threth y Cyngor 2019/20.

66. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith i'r Dyfodol i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Fel y cytunwyd yng Nghofnod 64 uchod, gofynnodd y Cynghorydd Hugh Irving fod y Strategaeth Ystadau yn cael ei chynnwys fel testun, gan fod ganddo bryderon penodol oedd yn ymwneud â Phrestatyn, gan nad oedd unrhyw gyfleusterau heddlu yn y dref.

Byddai Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Heddlu Gogledd Cymru yn cysylltu â Chynghorydd Irving i drafod ei bryderon.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, yn amodol ar gynnwys y testunau a argymhellir uchod.**

67. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Panel Heddlu a Throsedd 25 Mawrth 2019 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.50 pm)

**CWESTIYNAU I GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

| Person yn gofyn y cwestiwn | Dyddiad y Cyfarfod Panel Heddlu A Throsedd | Cwestiwn | Cyflwynwyd i'r Panel Heddlu a Throsedd |
|---|---|---|---|
| **John Williams (Aelod Annibynnol Cyfetholedig)** | | **Cwestiwn**<br><br>Gofynion mynediad y Fframwaith Cymhwyster Addysg Plismona newydd (PEQF) o 1 Ionawr 2020 ar gyfer recriwtiaid Cwnstabliaid yr Heddlu fydd un o'r canlynol:<br>- Prentisiaeth Gradd Cwnstabl yr Heddlu<br>- Rhaglen mynediad i Raddedigion<br>- Gradd cyn-ymuno mewn plismona<br><br>(Gwefan y Coleg Plismona)<br><br>Mae'r Rhaglen Arolygydd gyda Mynediad Uniongyrchol i Heddlu Gogledd Cymru wedi agor ar 7 Ionawr 2019 ac yn y meini prawf cymhwyso y cymwysterau lleiaf posib yw cymhwyster Lefel 3.<br><br>Credaf fod cymhwyster lefel 3 yn cyfateb i un lefel "A".<br><br>Mae disgwyl i Uwch-arolygydd gyda Mynediad Uniongyrchol fod yn meddu ar gymhwyster lefel 6/7 sef gradd neu radd uwch.<br><br>O ystyried bod disgwyl i Gwnstabliaid yr Heddlu fod wedi hyfforddi at lefel gradd byddai'n ymddangos fod y lefel mynediad ar gyfer Arolygwyr Mynediad Uniongyrchol wedi'i osod yn isel yn enwedig gan ei fod yn debygol ymhen amser y byddan nhw'n symud ymlaen i fod yn Arolygwyr. | |

Ydi'r Comisiynydd yn fodlon bod y gofynion mynediad ar gyfer Arolygydd Mynediad Uniongyrchol i Heddlu Gogledd Cymru wedi'u gosod ar y lefel angenrheidiol?

**Ateb**

Bydd y PEQF ar gyfer Cwnstabliaid yr Heddlu yn cael ei weithredu gan Heddlu Gogledd Cymru yn 2020 gyda llwybrau Prentisiaeth Cwnstabl (Yr Heddlu) a Mynediad i Raddedigion

Mae'r PEQF ar gyfer rheng Rhingyll i Brif Swyddog wedi cael ei adolygu a'i arolygu gan Goleg yr Heddlu yn 2019 ac ar hyn o bryd o dan ymgynghoriad gyda'r NPCC (Cyngor Prif Swyddogion Heddlu Cenedlaethol) a rhanddeiliaid eraill. Mae'r amserlen ar gyfer gweithredu PEQF o'r lefel uchaf wedi cael ei ohirio nes bod yr NPCC wedi ystyried y cynigion diwygiedig.

I roi cyd-destun i'r cynllun Mynediad Uniongyrchol, cafodd y gofynion cymhwystra ar gyfer y cynllun Arolygydd Mynediad Uniongyrchol eu hadolygu yn 2018 gan y Coleg Plismona o ganlyniad i ymgyrchoedd blaenorol oedd wedi atynnu niferoedd isel o ymgeiswyr gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn arbennig pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r arweiniad o'r Coleg Plismona ar gyfer yr ymgyrch Mynediad Uniongyrchol i Arolygydd wedi'i gyhoeddi fel a ganlyn;

**"Roedd gan broses llynedd ofyniad cenedlaethol i ymgeiswyr Mynediad Uniongyrchol i feddu ar radd neu gymhwyster lefel 7 cyn gwneud cais. Mae'r gofyniad hwn wedi ei dynnu allan ar ôl adolygu'r broses. Gall lluoedd gyflwyno safonau eu hunain (allai barhau i**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tud 14<br>Tudalen 16 | | **gynnwys gradd os dymunent) ond rhaid iddynt gwrdd â rheoliadau'r heddlu mewn perthynas â phenodiadau cyffredinol fel swyddog heddlu".**<br><br>Er mwyn sicrhau cydraddoldeb gyda'r arweiniad a'r Lluoedd eraill mae HGC wedi cyflwyno gofynion cymhwystra cyffredinol ar gyfer swyddog heddlu, sef cymhwyster sy'n o leiaf lefel 3 a'r holl ofynion rheoleiddio eraill ar gyfer mynediad i Wasanaeth Yr Heddlu.<br><br>Bydd yr holl Arolygwyr Mynediad Uniongyrchol sydd wedi graddio'n llwyddiannus o raglen Mynediad Uniongyrchol y Coleg Plismona wedi cyflawni cymhwyster lefel 7 ar gyfer Arwain mewn Plismona, ac felly yn cyd-fynd â'r gofynion PEQF arfaethedig ar gyfer rheng Arolygydd.<br><br>Mae'r broses dyrchafiad mewnol gan HGC ar hyn o bryd yn cyd-fynd â Fframwaith Dyrchafiad yr Heddlu Cenedlaethol (NPPf) ac felly nid oes angen cymhwyster i gael mynediad i'r broses dyrchafu. Yn ystod y broses ddyrchafu, bydd Sarsiantiaid yn cyflawni Tystysgrif mewn Rheoli (lefel 4) ac Arweinyddiaeth ac Arolygwyr yn cyflawni Tystysgrif mewn Rheoli (lefel 5) - wedi'u dyfarnu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI)<br><br>Ar hyn o bryd rydym yn datblygu Rhaglenni Uwch Arweinyddiaeth gyda phrifysgolion Central Lancaster, Liverpool John Moores a Bangor i adnabod rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a fydd yn cyd-fynd â gofynion y PEQF yn y dyfodol. | |

**CWESTIYNAU I GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

| Yr unigolyn sy'n cyflwyno'r cwestiwn | Dyddiad Cyfarfod y Panel | Cwestiwn | Cyflwyno i'r Comisiynydd |
|---|---|---|---|
| **Y Cynghorydd Chris Bithell a'r Cynghorydd Dylan Rees** | 17/06/19 | Ysgrifennodd Andrew Gilligan erthygl ym mhapur y Sunday Times ar 5 Mai, 2019, dan y pennawd *"Police let suspects go free to avoid 60 mile drive to cells."* Honnir y gall hyn helpu i egluro pam bod nifer yr arestiadau wedi haneru ar adeg pan mae nifer y troseddau wedi cynyddu.<br>Er y mynegwyd pryderon am effaith y nifer llai o ystafelloedd dalfa a chelloedd yn genedlaethol, tynnwyd sylw at heddluoedd penodol yn yr erthygl, sef Northumberland a Gogledd Cymru.<br><br>Yn gryno, mae'r erthygl yn nodi bod swyddogion yr Heddlu yn rhyddhau troseddwyr oherwydd y pellteroedd sy'n gysylltiedig â'u cludo i'r ystafelloedd dalfa sydd yn weddill, mae nifer yr ystafelloedd hyn wedi gostwng i dair yng Ngogledd Cymru ac wedi'u lleoli yng Nghaernarfon, Llanelwy a Wrecsam (bellach yn Llai).<br><br>Dyfynnwyd Che Donald, Is-Gadeirydd Ffederasiwn yr Heddlu yn dweud "bod hon wedi datblygu'n broblem benodol mewn rhai ardaloedd, yn enwedig o fewn ardaloedd gwledig, pan fo swyddogion yn gorfod gyrru am bellteroedd maith i fynd â throseddwyr i'r ddalfa. Gall hyn dynnu Swyddog oddi ar y strydoedd am gyfnod sylweddol o amser ac yn achos gyrwyr dan ddylanwad alcohol, gall olygu bod troseddwyr yn osgoi euogfarn yn gyfan gwbl."<br><br>Mae'r erthygl yn dyfynnu sefyllfa ardaloedd megis Tywyn sydd 64 milltir o Gaernarfon ac oddeutu'r un pellter o Wrecsam. Mae hefyd yn dyfynnu, Mark Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol Cangen Gogledd Cymru o Ffederasiwn yr Heddlu, sy'n dweud "ei bod yn ystyriaeth fawr i swyddog wrth iddo bwyso a mesur a ddylai arestio unigolyn ai peidio. Efallai bod unigolyn yn haeddu | **13/05/19** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cael ei arestio ond oherwydd y pellter sy’n rhaid teithio (i’r ddalfa) mae’n rhaid i swyddogion ailystyried y sefyllfa.”<br>Mae’r erthygl hon yn peri pryder i mi ac rwyf yn cael fy atgoffa o’r pryderon difrifol a fynegais pan oeddwn yn aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru pan gafwyd trafodaeth a gwnaethpwyd y penderfyniad i gau’r ddalfa yn Yr Wyddgrug. Roeddwn yn poeni y byddai swyddogion yn cael eu tynnu o’u hardaloedd am o leiaf awr a hanner i ddwy awr er mwyn danfon troseddwyr i Wrecsam, eu cyflwyno nhw a’r manylion cysylltiedig yn y ddalfa. O ystyried y nifer fechan o swyddogion ar ddyletswydd, yn enwedig yn y nos, a’r ardaloedd mawr y mae’n rhaid iddynt ofalu amdanynt, byddai hyn yn golygu na fyddai bron yr un swyddog arall yn bresennol tra bod eraill yn danfon y troseddwr i’r ddalfa. Rhaid bod hynny’n ystyriaeth fawr i’r swyddogion wrth wneud penderfyniad. Roeddwn yn pryderu’r adeg honno, pan yr oedd gennym fwy o swyddogion yn lleol a chenedlaethol i fynd i’r afael â throseddu, felly a yw hyn yn cael ei ystyried yn fwy o bryder mawr bellach? Eto, fel aelod yn Yr Wyddgrug, roeddwn yn pryderu am y daith o oddeutu 22 milltir i Wrecsam ac yn ôl. Gallaf gydymdeimlo â phryderon y rhai sy’n byw yn Nhywyn a fyddai’n gorfod teithio 128 o filltiroedd ar hyd ffyrdd heriol ym mhob tywydd yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.<br><br>Gofynnaf i chi ymchwilio i’r pryder hwn ac adrodd eich canfyddiadau yn ôl i’r Panel. | |

| | |
|---|---|
| | **PANEL YR HEDDLU A THROSEDD**<br><br>**17 Mehefin 2019**<br><br>**COFNOD PENDERFYNIADAU**<br><br>**Adroddiad y Prif Weithredwr** |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ("y Comisiynydd") yn gyfrifol am wneud nifer o benderfyniadau drwy gydol y flwyddyn. Gall y rhain gynnwys materion fel y gyllideb a'r praesept, penodiadau, blaenoriaethau plismona a thrafodion cyfreithiol.

**2. SUT Y GWNEIR PENDERFYNIADAU**

2.1 Mae'r Polisi Gwneud Penderfyniadau yn gosod y broses benderfynu y bydd Comisiynydd Gogledd Cymru yn cadw ati. Mae'n gosod y terfynau, y dull a'r egwyddorion ac yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a chyhoeddi penderfyniadau a wneir.

2.2 Bydd penderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd yn codi yn bennaf o gyflawni ei swyddogaethau statudol:- yn ogystal, gosodwyd dyletswydd statudol ar y Comisiynydd i gofnodi a chyhoeddi penderfyniadau o fudd y cyhoedd arwyddocaol yn deillio o ymarfer y swyddogaethau statudol hynny, boed yn cael eu gwneud gan y Comisiynydd yn breifat neu yn sgil cyfarfod o natur gyhoeddus neu breifat.

2.3 Mae gofynion statudol yng Ngorchmynion 2011/12 ac 13 Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) ("y Gorchmynion") ar gyfer cofnodi a chyhoeddi Gwybodaeth ynghylch penderfyniadau, yn gorchymyn fod angen elfennau penodol i gyflawni tryloywder a sicrhau uniondeb y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau. Bydd penderfyniadau a wneir sy'n cael eu hystyried yn rhai o ddiddordeb i'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd ac yn cael eu darparu at sylw'r Panel yn yr adroddiad hwn.

**3. CRAFFU AR Y PENDERFYNIADAU A WNEIR GAN Y COMISIYNYDD**

3.1 Mae Panel yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am oruchwylio'r Comisiynydd a chraffu ar ei benderfyniadau.

3.2 Bwriad y Comisiynydd yw rhoi crynodeb i'r Panel o'r holl benderfyniadau a wnaed ynghyd â chrynodeb ynglŷn â pham y gwnaed y penderfyniad. Y bwriad yw y bydd hyn yn cynorthwyo'r Panel wrth gyflawni ei ddyletswydd wrth graffu ar ei benderfyniadau.

**4. ARGYMHELLION**

4.1 Dylai'r Panel nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

## 5. COFNOD PENDERFYNIADAU

5.1 Mae'r tabl isod yn nodi'r penderfyniadau allweddol a wnaed o 10 Tachwedd 2018 hyd 17 Tachwedd 2019.

| Dyddiad | Teitl a Chysylltiadau â'r penderfyniad llawn | Crynodeb |
|---|---|---|
| 20.11.18 | Rheolau Sefydlog a Chynllun Caniatâd | Dylid adolygu pob polisi yn rheolaidd, a'u diwygio fel bo'r angen, ac o'u hadolygu nodwyd bod anghysondeb yn y cyfyngiadau ariannol o safbwynt y Prif Gwnstabl rhwng y Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Caniatâd; mae'r adolygiad hwn yn datrys y gwahaniaethau.<br><br>Yn ogystal, penderfynwyd diwygio ffurf y cyfyngiadau, er mwyn caniatáu'r Prif Gwnstabl i gynyddu annibyniaeth weithredol contractau gwerth is. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Comisiynydd yn ei gyfrifoldebau i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif. |
| 08.01.19 | Cronfa Ymyrraeth Gynnar a Throsolwg | Mae pedwar sefydliad sef Homestart, Hafal, Grŵp Cynefin a Canolfan Merched Gogledd Cymru wedi derbyn cyllid i ddarparu prosiectau Ymyrraeth Gynnar ar draws Gogledd Cymru. Bydd yr holl brosiectau a gefnogir yn ychwanegu gwerth at y rhaglen Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod.<br><br>Mae'r Comisiynydd yn rhyddhau £100,000 bob blwyddyn ar gyfer y 3 blynedd nesaf yn lle'r Gronfa Trosedd ac Anrhefn a ddyrannwyd yn flaenorol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Gofynnwyd i'r sefydliadau integreiddio'r Iaith Gymraeg, Gwerth Cymdeithasol a Chyfleoedd Cyfartal i ddarpariaeth y prosiectau.<br><br>Mae'r sefydliadau wedi cwblhau achosion busnes llawn ar gyfer y prosiectau gan dystio eu 60% o gyllid cyfatebol. |
| 31.01.19 | Praesept | Praesept i'w gynyddu i £81,030,000, cynnydd o 8.42% yn y praesept, sydd gyfwerth â chynnydd o 7.74% mewn treth cyngor. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan Banel yr Heddlu a Throsedd ar 28 Ionawr 2019. |
| 21.03.19 | Llawlyfr Llywodraethu | Mae'r Llawlyfr Llywodraeth yn cynnwys tair rhan: |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynllun Caniatâd<br>Rheoliadau Ariannol<br>Archebion Sefydlog am Gytundebau<br><br>Gyda'i gilydd mae'r rhain yn amlinellu'r egwyddorion lefel uchel i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gynnal eu busnes.<br><br>Mae'r Llawlyfr Llywodraethu yn ofyniad cyfreithiol. Mae'r fersiwn diwygiedig yn cynnwys y newidiadau canlynol:<br><br>• Mae'r cyfyngiadau ariannol wedi eu hadolygu a'u hegluro;<br><br>• Mae gwerth cymdeithasol wedi'i ymgorffori, gan adlewyrchu gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| 26.03.19 | NARPO | Ysgrifennodd NARPO (Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Heddlu wedi Ymddeol) at Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gofyn am gyfraniad cyllidol tuag at gyngerdd yn dathlu 100 mlynedd ers eu sefydlu.<br><br>Penderfynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd roi cyfraniad o £500.00 o gyllideb y swyddfa. |
| 14.03.19 | Dangerpoint | Rhoddwyd swm o £1,950 i Dangerpoint ar gyfer arddangosfa ryngweithiol i addysgu plant a hyrwyddo trafodaeth am beryglon trosedd cyllyll.<br><br>Darparwyd y cyllid o gyllideb swyddfa'r Comisiynydd. |
| 11.04.19 | Cyngor Staff Yr Heddlu | Sefydlwyd Cyngor Staff Yr Heddlu i ddarparu cydfargeinio gwirfoddol ar gyfer Staff Heddlu Cymru a Lloegr, ac mae'n cynrychioli ochr y cyflogwyr.<br><br>Drwy gyfrannu at gostau Cyngor Staff Yr Heddlu, gellir rhannu cost a phwysau gweinyddol negodi amodau a thâl yr heddlu ymysg Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.<br><br>£1,315 y flwyddyn yw'r cyfraniad a geisiwyd. Mae cyfraniad wedi ei wneud bob blwyddyn ers 2016/2017. |
| 26.03.19 | Strategaeth Gyfalaf | Mae Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli Trysorlys yn dilyn fformat newydd ar gyfer 2019/20, yn unol â phrosesau Rheoli |

| | | |
|---|---|---|
| | | Trysorlys yn y Sector Cyhoeddus: Cod Ymarfer a Nodyn Canllaw Traws-Sector (CIPFA 2017). Mae gofyn i'r Comisiynydd wneud y canlynol, cyn cychwyn y flwyddyn ariannol:<br>• Cytuno'n ffurfiol ar y Rhaglen Gyfalaf fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf;<br>• Darparu'r fframwaith strategol ar gyfer Rheoli Trysorlys;<br>• Cytuno ar ddangosyddion Darbodus a rheoli Trysorlys;<br>• Cytuno ar y dull a fabwysiadwyd ar gyfer ad-dalu dyled (Darpariaeth Isafswm Refeniw).<br>Trafodwyd drafft y Strategaeth Gyfalaf a drafft y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn y Cyd Bwyllgor Archwilio ar 21 Mawrth 2019.<br>Mae'r strategaethau hyn yn sylfaenol debyg i'r un maent yn eu disodli, ar wahân i'r canlynol:<br>• Mae Arlingclose (Ymgynghorydd Rheoli Trysorlys) wedi argymell bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ystyried cymryd benthyciadau hir dymor (20 mlynedd) er mwyn darparu sicrwydd cyfradd llog (o'i gymharu â benthyciadau tymor byrrach).<br><br>Bydd yr angen am unrhyw fenthyciad yn ddibynnol ar raddfa ac amseru'r rhaglen gyfalaf, a bydd Arlingclose yn darparu cyngor o safbwynt yr adeg gorau i fenthyg.<br><br>Cytunodd y Cyd Bwyllgor Archwilio bod hwn yn ddull gweithredu cyfrifol, ac argymhellwyd dilyn cyngor Arlingclose. |

5.2 Ceir Gwybodaeth Ychwanegol ar wefan y Comisiynydd ('Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau yn cyhoeddi gwybodaeth ar y Contractau, Trafodion Eiddo ac Hepgoriadau i'r Rheolau Sefydlog y mae wedi eu cymeradwyo.

5.3 Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar y Cyd er eu gwybodaeth a'u craffu.

5.4 Gellir dod o hyd i'r adroddiad diweddaraf ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2018 trwy glicio http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Information/Legal-Reports.aspx.

**6. PAPURAU CEFNDIR**

6.1 Polisi Gwneud Penderfyniadau, Swyddfa Comisiynydd Gogledd Cymru

6.2 Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011

6.3 Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2012

6.4 Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2013

**Awdur yr Adroddiad**

Stephen Hughes, Prif Swyddog Gweithredol
Meinir Jones, Swyddog Gweithredol

*(Paratowyd yr adroddiad hwn ar 17 Mai 2019).*

**Gwybodaeth ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd**
**17eg Mehefin 2019**
***Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru***

**Cyflwyniad**

Dyma fy adroddiad i'r Panel ar gyfer y cyfnod o 1af Tachwedd 2018 hyd at 1af Mai 2019.

Mae'r adroddiad hwn yn trin a thrafod perfformiad yn erbyn Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021. Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymdrin yn bennaf â swyddogaeth ehangach y Panel o dan adran 28 (6) Bil Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer Gogledd Cymru ac i wneud adroddiadau ac argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth.

**Adran Un: Craffu ar Heddlu Gogledd Cymru**

Bydd aelodau'r Panel yn ymwybodol fy mod wedi penderfynu blaenoriaethu'r meysydd hynny a nodwyd fel y prif feysydd o fygythiad, risg a niwed yn 2017-2021, sef:

- **Cam-drin Domestig**
- **Caethwasiaeth Fodern**
- **Cam-drin Rhywiol (gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)**
- **Trosedd Cyfundrefnol**

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, mae gwasanaeth heddlu gweladwy a hygyrch yn parhau i fod yn bwysig i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r hyn y mae'r cyhoedd a'r Panel Heddlu a Throseddu wedi'i ddweud wrthyf ac mae **Cyflawni Cymdogaethau Mwy Diogel** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi.

Fe adolygais fy Nghynllun yn ddiweddar ac er bod y blaenoriaethau uchod yn parhau, fe gyflwynais flaenoriaeth gyffredinol hefyd i **leihau cam-fanteisio troseddol ar bobl agored i niwed.**

Felly, rwy'n craffu ar Heddlu Gogledd Cymru drwy fesur ei berfformiad yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn. Bydd y prif gyfrwng a ddefnyddir gennyf i gyflawni'r swyddogaeth graffu honno yn parhau i gael ei gyflawni drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol, yr wyf yn ei Gadeirio, ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno. Cyflwynir adroddiad ar berfformiad gan yr Heddlu yn ystod pob un o gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol Strategol, sy'n nodi'r sefyllfa a'r heriau presennol o ran pob blaenoriaeth.

Er fy mod yn monitro perfformiad yr Heddlu yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn yn fy nghyfarfodydd gyda'r Bwrdd Gweithredol Strategol, mae'n ofyniad wrth gwrs i agweddau eraill o waith yr heddlu gael eu cyflawni'n effeithiol ac effeithlon. Yn hynny o beth, mae rhywfaint o wybodaeth am blismona craidd hefyd yn destun craffu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol Strategol.

**Blaenoriaeth 1: Cam-drin Domestig**

Yn nhermau digwyddiadau a throseddau domestig cyffredinol, mae cynnydd o 4.7% flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae cynnydd o 20.6% mewn troseddau sy'n cael eu cofnodi fel rhai domestig, ac mae troseddau nad ydynt yn cael eu cofnodi fel rhai domestig wedi gostwng 16.2%, sy'n dangos bod Heddlu Gogledd Cymru yn mynd i'r afael â nifer uwch o ddigwyddiadau Domestig.

**Dioddefwyr mynych o fewn 12 mis** – Mae ffigurau diwedd y flwyddyn (Ebrill) yn dangos cynnydd o 7.7% o ddioddefwyr mynych. Roedd 13.3% yn fwy o ddioddefwyr gwrywaidd yn 18/19 na'r flwyddyn ddiwethaf, cynnydd o 2410 i 2731.

Mae adroddiadau am ddioddefwyr mynych yn parhau i gynyddu, yn ôl y disgwyl, a chefnogir hyn gan newid yn y ffordd y mae troseddau'n cael eu nodi ar draws y sbectrwm troseddau Cam-drin Domestig. Mae'r cynnydd yn y gwaith hwn yn effeithio ar swyddogion Cam-drin Domestig, baich gwaith MARAC a baich gwaith asiantaethau cymorth gan gynnwys Cymorth i Fenywod (Cymru) a gwasanaethau IDVA. Mae adolygiad MARAC ar draws asiantaethau yn cael ei gynnal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut i reoli'r galw yn fwy effeithlon a pharhau i gefnogi dioddefwyr Risg Uchel.

**Troseddwyr mynydd o fewn 12 mis –** Dangosodd ffigurau diwedd y flwyddyn ostyngiad o 30.8%. Mae nifer y troseddwyr mynych wedi parhau ar gyfartaledd is ers diwedd 17/18. Mae troseddwyr yn y grŵp oedran 25-34 yn bennaf.

**Hyder a Boddhad Dioddefwyr Cam-drin Domestig** – Rhwng 28ain Tachwedd a 28ain Chwefror 2019 cynhaliwyd 135 arolwg Cam-drin Domestig. Mae'r canlyniadau'n dangos lefelau boddhad o 89.1% ar gyfer Cyswllt; 89.3% ar gyfer y Camau Gweithredu a gymerwyd; 97.8% ar gyfer Triniaeth; 69.6% ar gyfer Camau Dilynol a 85.2% ar gyfer y Profiad Cyfan.

**Erlyniadau Llwyddiannus** – Ym mis Mawrth 2018 roedd 81.3% o achosion o Gam-drin Domestig yn llwyddiannus, o gymharu â 77.3% y flwyddyn flaenorol hyd at yr un dyddiad.

**Hysbysiadau Diogelwch Trais Domestig (DVPN)** – Yn Wythnos 52 bu cynnydd o 16.6% yn nifer y digwyddiadau Cam-drin Domestig lle cyflwynwyd o leiaf un DVPN.

Mae'r defnydd o DVPN yn parhau i fod yn gryf yng Ngogledd Cymru, ac rydym yn gweld nifer sylweddol o geisiadau'n cael eu gwneud i'r llysoedd sy'n cael eu cefnogi. Roedd yr adborth a dderbyniwyd gan ddioddefwyr ym mis Tachwedd 2018 yn gryf ac yn cefnogi'r defnydd o DVPN, mae adborth ac ymgynghoriad pellach gyda dioddefwyr yn parhau ac yr ydym yn aros am y canlyniadau. Ystyrir bod y dacteg hon yn ddull cryf i leihau'r nifer cyffredinol o droseddwyr mynych Cam-drin Domestig.

**Mechnïaeth Amodol** – Gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfran yr arestiadau a oedd yn gysylltiedig â Cham-drin Domestig a arweiniodd at waredíadau mechnïaeth amodol pan gyflwynwyd RUI (Rhyddhau Dan Ymchwiliad) ym mis Ebrill 2017, ond mae hyn wedi adfer i ryw raddau, gyda thuedd gynyddol. Yn Wythnos 52, roedd 15.5% o achosion o fynychu'r ddalfa mewn cysylltiad â cham-drin domestig wedi arwain at gyhoeddi mechnïaeth amodol, y mae eu nifer wedi treblu bron, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rwy'n parhau i fonitro'r ffigur hwn drwy Fwrdd Strategol Diogelu Pobl Agored i Niwed ac fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd wedi gofyn am astudiaeth amser o bob achos o Gam-drin Domestig yn ystod cyfnod penodol er mwyn edrych ar amserlenni, canlyniadau a mechnïaeth ac yn y blaen.

Ar Wythnos 52, sicrhawyd tystiolaeth o **Fideo a Wisgir ar y Corff mewn** 10.1% o ddigwyddiadau Cam-drin Domestig. Mae hyn yn cynyddu i 29.1% pan gyflwynwyd DVPN. Mae'r defnydd o Fideo a Wisgir ar y Corff mewn digwyddiadau yn casglu llawer o dystiolaeth gynnar a chyfrifon dioddefwyr a gellir ei defnyddio weithiau ar gyfer erlyniadau pan fydd y dioddefwr wedi tynnu eu cefnogaeth yn ôl.

Wrth edrych ar **ffigurau ansawdd ffeiliau** cyffredinol (nid dim ond ar gyfer Cam-drin Domestig), mae'r ansawdd wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, o 81.3% yn 2016 i 89.2% yn 2018/19.

| | |
|---|---|
| 2016 | 81.3% |
| 2017 | 84.7% |
| 2018 Y flwyddyn hyd yma | 89.2% |

Mae cynrychiolydd o fy swyddfa yn eistedd ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymchwiliol yr Heddlu. Diben y Grŵp hwn yw sicrhau ansawdd ymchwiliadau a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a phroblemau amseroldeb.

Rhoddir blaenoriaeth weithredol bellach i **stelcio ac aflonyddu** drwy'r defnydd cynyddol o'r Offer Stelcio ac Aflonyddu ac adnabod risg.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (SEEDS) a fydd yn defnyddio profiad dioddefwyr/goroeswyr Cam-drin Domestig i wella polisïau, hyfforddiant ac arferion gwaith.

Rydym yn y broses o ddatblygu pecyn ymyrraeth cyflawnwyr ar gyfer troseddwyr Cam-drin Domestig. Mae cynllun cyflawni wedi'i greu ac mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn awr gyda phartneriaid ar draws Gogledd Cymru drwy Fwrdd VAWDASV (y cyfeirir ato isod). Enw'r pecyn fydd ADAPT (Agencies Domestig Abuse Perpetrator Tasking) ac mae'n seiliedig ar broses MARAC yn Northumbria. Bydd y broses hon yn canolbwyntio ar gyflawnwyr mynych cam-drin domestig yr asesir eu bod yn fwy na tebygol na pheidio i barhau i gyflawni troseddau cam-drin domestig heb ymyrraeth.

Cyfarfu swyddog o fy nhîm ag arweinydd y Panel ar gyfer Cam-drin Domestig, y Cynghorydd Chris Bithell, ar 8fed Mai a darparodd drosolwg o berfformiad yn erbyn y flaenoriaeth hon a'r gwaith sy'n cael ei wneud gennyf fi a fy swyddfa i graffu a herio perfformiad o'r fath, yn ogystal â llywio gwaith partneriaeth ar hyn yn y rhanbarth.

Yn ystod y cyfarfod ar 8fed Mai, rhannodd y Cynghorydd Bithell bryderon anecdotaidd gyda fy swyddog ynglŷn â 3 achos yn ardal Sir y Fflint. Rwy'n siŵr y bydd Aelodau'r Panel yn gwerthfawrogi, a'r Cynghorydd Bithell rwy'n siŵr, nad yw 3 enghraifft anecdotaidd yn erbyn cefndir o 17,000 o atgyfeiriadau Cam-drin Domestig yn tanseilio cynnydd strategol Heddlu Gogledd Cymru o ran Cam-drin Domestig.

Er ein bod yn gwerthfawrogi clywed am bryderon o'r fath, ni all fy swyddfa, ac ni ddylai fy swyddfa gymryd rhan mewn materion gweithredol a bydd ond yn gallu craffu ar ddulliau rheoli a datblygu strategol. Ymddengys nad yw'r Heddlu yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar adegau – fodd bynnag rwy'n hyderus bod gennym systemau a phrosesau ar waith i geisio canfod methiannau o'r fath mewn dull amserol. Rwy'n gobeithio y bydd yr arolygon CD yn nodi rhai o'r achosion hyn y gall yr Heddlu ddysgu ohonynt.

Roedd y Cynghorydd Bithell wedi holi'n ddiweddar a oedd achosion Cam-drin Domestig yn cael eu hymchwilio mewn dull amserol. Mae amseroldeb ymchwiliadau yn cael eu rheoli i ddechrau gan oruchwylwyr swyddogion, ac yna'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd rheoli troseddau lleol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Safonau Ymchwiliadol hefyd yn edrych arnynt. Dylai unrhyw swyddogion sy'n mynd ar wyliau adolygu eu baich gwaith gyda goruchwylwyr i sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen ac ail-ddyrannu achosion os bydd angen.

**Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Bwrdd VAWDASV):**

Hysbyswyd Bwrdd VAWDASV ym mir Rhagfyr 2018 bod dyraniad o £419,200.00 wedi'i ddyfarnu ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru, a bod hyn yn gyfwerth â'r dyfarniad ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Anfonwyd yr arian hwn at Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fel banciwr y rhanbarth.

Cyflwynwyd Cynllun Cyflawni Rhanbarthol 2019-20 i Lywodraeth Cymru ac mae'n parhau i fod yn destun proses werthuso gyda'r Cynghorydd Rhanbarthol. Rhagwelir y byddwn yn clywed canlyniad y broses hon ym mis Mehefin.

Mae gwaith wedi bod yn parhau o ran datblygu dull rhanbarthol a gwella cydweithrediad rhwng yr holl bartneriaid perthnasol ar gyfer cyflawni gwasanaethau VAWDASV, drwy nodi blaenoriaethau ar y cyd ar lefel ranbarthol. Yng nghyfarfod bwrdd VAWDASV ym mis Mai, cymeradwywyd Manyleb IDVA Rhanbarthol a bydd yn destun proses gaffael ffurfiol eleni wrth baratoi ar gyfer gwasanaeth newydd ym mis Ebrill 2020. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, bydd yn galluogi i Fwrdd VAWDASV ddatblygu'r seilwaith ymhellach a bydd yn galluogi cydweithrediad aml-asiantaeth a dull comisiynu cyson ac effeithiol. Pan fydd y dull hwn wedi'i gefnogi drwy ddatblygu comisiynu statudol a sicrhau, waeth lle mae dioddefwr yn byw; bydd gwasanaeth cyhoeddus ac arbenigol cadarn i'w helpu.

Yn ystod 2019-20 bydd y gwasanaethau a gyflenwir yn y rhanbarth (gan ddefnyddio grant OPCC a Llywodraeth Cymru) yr un fath â'r gwasanaethau hynny a gomisiynwyd yn ystod 2018-19 (ac eithrio'r Tîm Rhanbarthol).

Ym mis Mai cawsom ein hysbysu'n swyddogol y byddai gwasanaethau Cam-drin Domestig Wrecsam a Bae Colwyn yn cael eu trosglwyddo i Uned Diogelwch Trais Teuluol (DASU) Gogledd Cymru. Bydd y ddau wasanaeth yn parhau i gael eu darparu'n lleol, wedi'u cefnogi gan y cyllidwyr presennol, i ddarparu'r un gwasanaeth cymorth o ansawdd uchel i oroeswyr cam-drin domestig a'u plant, yn unol â Safonau Gwasanaeth Ansawdd Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwasanaethau arbenigol.

Bydd Cymorth i Fenywod yn parhau fel y corff ambarél ar gyfer y rhwydwaith cenedlaethol trais yn erbyn menywod, gwasanaethau arbenigol cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

**Blaenoriaeth 2: Caethwasiaeth Fodern**


Mae adolygiadau o Gofnodion yn dangos bod cydymffurfiaeth ag ymchwiliadau, diogelu a darparu gofal effeithiol i ddioddefwyr drwy'r adolygiadau cofnodion yn parhau i fod yn gyson ar 100%.

Yn y 12 mis diwethaf mae 38 (72%) o droseddau a adroddir wedi bod yn gysylltiedig â chaethiwed domestig, 3 (6%) i hwyluso teithio a 12 (22%) llafur gorfodol.

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf rwyf wedi nodi'n ofalus y nifer o Fecanweithiau Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) a gyflwynwyd, gan Heddlu Gogledd Cymru, ei bartneriaid a lluoedd eraill yr Heddlu o amgylch


y DU. Mae nifer yr atgyfeiriadau o gaethwasiaeth fodern i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wedi'u trin fel mesur o'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn cysylltiad â Chaethwasiaeth Fodern. Fodd bynnag, rwyf wedi penderfynu yn awr ei bod yn wirioneddol bwysig ein bod yn deall y canlyniadau i'r bobl hynny sydd wedi mynd drwy'r broses NRM. Felly, rwyf yn bwriadu ymgymryd â darn o waith a fydd yn fy ngalluogi i adolygu manylion achosion penodol sy'n ategu'r data yr wyf wedi'i ystyried yn flaenorol. Mae'n bwysig ymchwilio ymhellach i'r data er mwyn deall a yw ein prosesau ar gyfer delio â dioddefwyr caethwasiaeth fodern yn effeithiol yn y tymor byr ac yn y tymor hwy. Byddwn yn dechrau'r gwaith hwn i ddechrau drwy edrych ar y canlyniadau ar gyfer plant sydd wedi'u prosesu drwy'r system NRM yng Ngogledd Cymru. Yna bydd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar oedolion yn ddiweddarach.

**Troseddau Caethwasiaeth Fodern (CF) a adroddwyd yn y 12 mis diwethaf**




**Caethiwed domestig CF**
**Hwyluso teithio CF**
**Llafur Gorfodol CF**

**Cyflwyniadau GWYBODAETH YN Y 12 MIS DIWETHAF**




**EBR / MAI / MEH / GORFF / Awst / MED / HYD / TACH / RHAG / ION / CHWEF / MAW**

**Diogelu**

Bydd uned Caethwasiaeth Fodern Heddlu Gogledd Cymru yn uno â Thîm Onyx (CSE) i greu Tîm newydd ar Gamfanteisio.

Mae Ymgyrch Octopus wedi parhau, gyda'r tîm CF ac asiantaethau partner wedi cynnal ymweliadau i leoliadau golchi ceir.

Mae'r Heddlu yn parhau i gynnal cyflwyniadau i nifer o baneli a phartneriaid, gyda chyflwyniad diweddar i ddarparwyr tai cymdeithasol.

**Paratoi**

Mae dadansoddwyr yn parhau i gynhyrchu adroddiad ar Gaethwasiaeth Fodern i roi gwybodaeth i Dditectyddion Prif Arolygwyr o'r materion CF yn eu hardaloedd perthnasol.

Cynhaliwyd cwrs arbenigol ar gyfer Ymchwilwyr yn Llanelwy ym mis Ebrill 2019. Fe arweiniodd y cwrs hwn at 8 ymchwiliad arbenigol arall yn Heddlu Gogledd Cymru.

**Atal**

Mae gwaith ataliol yn mynd rhagddo gyda'r Adrannau Addysg. Cytunwyd ar raglen gyflawni gydag ysgolion yn Sir Ddinbych. Bydd hyn yn cynnwys darparu cynhyrchiad drama sydd wedi'i ariannu gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

Mae cyllid wedi'i sicrhau hefyd mewn cysylltiad â gweithdy Camfanteisio Troseddol ar Blant i'w cynnal ar gyfer arweinwyr addysg a darparwyr cartrefi gofal.

Fe ddosbarthodd yr Uned CF fwletin ar draws yr heddlu i addysgu swyddogion am Gamfanteisio Troseddol. Maent hefyd yn parhau i ddosbarthu bwletinau er mwyn galluogi swyddogion i adnabod arwyddion Caethwasiaeth Fodern.

Mae Schools Beat wedi lansio deunydd hyfforddiant ar Linellau Cyffuriau i bob ysgol yng Ngogledd Cymru – yna bydd Penaethiaid yn cyflwyno'r deunydd mewn gwasanaethau ac yn y blaen.

**Mynd ar Drywydd**

Bwriedir cynnal dyddiau rhagweithiol i dargedu'r gwasanaeth rheilffordd ar hyd arfordir Gogledd Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio i gludo cyffuriau Dosbarth A i'r ardal o Lannau Mersi.

Gwneir gwaith monitro rhagweithiol o wefannau sy'n hysbysebu gwasanaethau oedolion er mwyn gwirio llesiant personau yr amheuir eu bod yn cael eu camfanteisio.

Gyda chymorth Haven of Light, BRC a Byddin yr Iachawdwriaeth , mae Heddlu Gogledd Cymru wedi sicrhau eiddo yn yr ardal Ganolog i'w ddefnyddio fel canolfan dderbyn. Roedd diffyg yn y maes hwn ac mae'r cyfleuster yn wych. Cafodd ei ddefnyddio ddwywaith yn yr wythnosau diwethaf i gefnogi Gweithrediadau Rhagweithiol. Nid oes unrhyw gost i HGC. Rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o hyfforddi swyddogion / staff penodol i weithio yng nghyfleuster y Ganolfan dderbyn. Daw'r rhain o'r Gwnstabliaeth Arbennig / Gwirfoddolwyr. Bydd staff yn parhau i feddu ar rolau penodol a sgiliau angenrheidiol er mwyn gallu cynorthwyo ar fyr rybudd.

**Eiriolwyr Annibynnol Masnachu Mewn Plant - ICTA**

Cafodd rhaglen beilot ICTA ei gweithredu gan Barnardos ac roedd Cymru yn un o'r ardaloedd prawf ar gyfer y gwasanaeth hwn. Roedd y gwasanaeth hwn yn darparu cymorth penodol, wedi'i deilwra i blant sydd wedi'u masnachu pan allent fod wedi'u hamlygu i wahanol fathau o gam-fanteisio troseddol. Cafodd nifer o blant a oedd wedi bod yn ddioddefwyr camfanteisio llinellau cyffuriau help a chymorth drwy waith gwych yr ICTA a ddyrannwyd ar gyfer Gogledd Cymru.


Cefais fy mhlesio yn arbennig gan gynllun peilot ICTA, fodd bynnag, roedd y Swyddfa Gartref a oedd wedi ariannu'r cynllun peilot mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad ac fe wnaethant benderfynu newid y model cymorth a gynigir gan Barnardos. Mae gennyf bryderon am y

newidiadau hyn, ac rwyf wedi'u rhannu gyda fy nghydweithwyr yn genedlaethol drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol Gwrth-Fasnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern ac yn fwy lleol gydag arweinydd Llywodraeth Cymru ar Gaethwasiaeth Fodern. Rwyf wedi derbyn sicrwydd ynglŷn â'r model newydd ar gyfer y gwaith hwn. Rwy'n aros am werthusiad o'r prosiect gyda'r model cymorth newydd a byddaf yn rhoi sylwadau ar hyn yn y dyfodol.


**Blaenoriaeth 3: Cam-drin Rhywiol (gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)**

**Perfformiad Trais**

Nifer yr achosion o Drais a gofnodwyd fesul 1000 o'r Boblogaeth – 12 mis i Ionawr 2019




Canlyniadau Trais 1-8 – 12 mis i Ionawr 2019




Mae'r set ddata ddiweddaraf ar gyfer y deuddeg mis hyd at fis Ionawr 2019 yn dangos, ymhlith y 43 heddlu, Heddlu Gogledd Cymru yw'r 10fed uchaf o ran nifer y troseddau trais sy'n cael eu cofnodi. Mae'r set ddata ddiweddaraf ar gyfer y deuddeg mis at fis Medi 2018 yn dangos, ymhlith y 43 heddlu, Heddlu Gogledd Cymru yw'r 3ydd uchaf o ran canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau trais, ac rydym yn 1af yn ein grŵp mwyaf tebyg.

Mae'r Grŵp Strategol Trais Rhywiol yn parhau i gyfarfod. Mae'r grŵp hwn yn adrodd i'r Bwrdd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae cynrychiolydd o Wasanaeth Erlyn y Goron ar y Bwrdd yn awr, yn ogystal â Swyddog Iechyd Meddwl Strategol Heddlu Gogledd Cymru.

Trefnwyd sesiwn adborth grŵp defnyddwyr gan Hannah Mart (Ymgynghorydd Ymosodiadau Rhywiol Plant a Phobl Ifanc (CYPSVA) yn SARC) ar gyfer y Ditectif Arolygydd o Amethyst. Roedd hyn yn cynnwys grŵp o ferched ifanc a oedd wedi cael mynediad i wasanaeth CYPSVA drwy atgyfeiriadau gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi darparu adborth hollbwysig er mwyn gwella'r gwasanaeth y mae Amethyst yn ei ddarparu i bobl ifanc yn eu harddegau sydd wedi dioddef trais a throseddau rhywiol difrifol.

Mae CYPSVA yn parhau i ddarparu mewnbwn i Amethyst, PVPU a staff CID er mwyn hyrwyddo'r defnydd o ddull wedi'i hysbysu gan drawma gyda dioddefwyr trais rhywiol er mwyn deall sut y gallai effeithiau trawma gael eu hadlewyrchu yn ymddygiad y dioddefwr.

**Rheoli Troseddwyr Rhyw**

Mae Cohort yr Uned Troseddwyr Rhyw a Thrais Treisgar (SAVOU) wedi cynyddu 9% ers Rhagfyr 2017. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn ymhlith Troseddwyr Rhyw Cofrestredig yn y gymuned.

Y brif ffordd o reoli'r risg sy'n gysylltiedig â'r troseddwyr hyn yw drwy ymweliadau amserol rheolaidd a gwell dealltwriaeth o'r risg maent yn ei chyflwyno drwy gwblhau asesiadau'r System Rheoli Risg Actif (ARMS). Mae'r Bwrdd Strategol Diogelu Pobl Agored i Niwed yn fy sicrhau bod ymweliadau i RSO yn parhau i gael eu cwblhau mewn dull amserol a bod y ffocws yn parhau ar gynyddu'r gyfran o droseddwyr sydd wedi cwblhau asesiad ARMS, fel yr argymhellwyd gan arbenigwyr y Coleg Plismona.

Cafodd fy Mhrif Swyddog Gweithredol gyfarfod yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr Circles UK. Maent yn cynnal Circles of Support and Accountability (COSA) sy'n rhwydwaith o wirfoddolwyr yn y gymuned sy'n gweithio gyda throseddwyr rhyw cofrestredig ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Mae'r cynllun yn llwyddiannus iawn a bydd fy swyddfa yn cynorthwyo Circles UK i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth er mwyn recriwtio gwirfoddolwyr newydd ar draws Gogledd Cymru.

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant:**

Mae gwaith rhanbarthol yn parhau yn y Gogledd-orllewin i sefydlu rhywfaint o gysondeb gyda digwyddiadau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant sy'n cael eu cofnodi. Mae GMP, Heddlu Cumbria, Glannau Mersi a Swydd Gaer yn profi materion tebyg ac mae dull cydweithredol ar gyfer arferion safoni yn cael eu datblygu.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i fynychu chwe Phanel rhanbarthol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae Sir y Fflint a Wrecsam wedi newid y panel i gyfarfod MET (ar goll, camfanteisio, masnachu) lle bydd strategaethau ar gyfer plant yn cael eu cynnal mewn un fforwm misol.

Yn ystod y chwarter diwethaf mae swyddogion wedi bod yn darparu sesiynau ymwybyddiaeth i bob aelod o staff rheng flaen er mwyn gwella'r broses o nodi plant sydd mewn perygl o brofi camfantais, cynyddu'r llif wybodaeth a sicrhau eu bod yn amharu ar y cyflawnwyr. Mae'r gwaith hwn yn ymgorffori trosedd ehangach camfanteisio ar blant, sy'n cynnwys llinellau cyffuriau a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae'r ymdrech i gydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau hyfforddiant achredededig cyson ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn parhau ar ffurf Uwch Ymarferwyr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, sy'n cael ei ddarparu gan PACE (Parents Against Child Exploitation) i staff o Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdod Lleol Conwy ac Ynys Môn.

Mae'r broses o gwblhau cyfweliadau dychwelyd adref yn parhau i fod yn anghyson ar draws ardaloedd y chwe Awdurdod Lleol, ac nid yw plant yn rhai o'r Awdurdodau Lleol yn derbyn cyfweliadau dychwelyd adref yn dilyn episodau o fod ar goll, hyd yn oed pan maent yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i arddangos deunydd ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewn ystafelloedd aros mewn ysbytai ar draws y rhanbarth.


Ers 1af Ebrill 2018 cafwyd 34 atgyfeiriad i Dîm Ymchwilio i Bedoffiliaid a'r Rhyngrwyd (POLIT) Heddlu Gogledd Cymru:

- Mae 109 o warantau wedi arwain at arestio 82 o bobl o dan amheuaeth, yr oedd chwech ohonynt yn droseddwyr mynych;
- Oedran cyfartalog y 24 bobl o dan amheuaeth a arestiwyd yw 43 oed, er bod oedrannau'r bobl o dan amheuaeth yn amrywio o 16 i 76 oed;
- Cafodd un dioddefwr ei nodi drwy'r atgyfeiriadau i POLIT, fodd bynnag mae 75 o unigolion wedi'u diogelu;
- Ers 1af Medi mae Heddlu Gogledd Cymru wedi dosbarthu 127 o becynnau Gwybodaeth i Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith eraill, lle cafodd troseddwyr posibl eu nodi o ganlyniad i ymchwiliadau Heddlu Gogledd Cymru.

**Blaenoriaeth 4: Troseddu Cyfundrefnol**

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru 30 o Grŵp Troseddu Cyfundrefnol (GTC) wedi'u mapio yn awr.

**Eiddo a gipiwyd gan unigolion â chysylltiadau â Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol yn y 12 mis diwethaf**




**Cyffredinol Cyffuriau Arian/eitemau gwerthfawr Gynnau/arfau**

**Ymgyrch Zeus** – Ar ôl pledio'n euog, mae pob diffynnydd wedi'u dedfrydu yn awr i gyfanswm o 182 o flynyddoedd ac 11 mis o garchar.

**Ymweliadau Cipolwg ac Adolygiadau Cymheiriaid HMIC i Droseddu Difrifol a Chyfundrefnol –** Mae'r adolygiadau hyn wedi'u cynnal yn ystod y chwarter hwn. Mae adborth o'r ddau adolygiad wedi bod yn bositif ar y cyfan ynglŷn â Dulliau Rheoli ac Ymchwilio Heddlu Gogledd Cymru i Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol. Mae yna nifer o argymhellion a fydd yn cael eu hasesu a'u gweithredu yn awr os bydd angen. Mae hyn yn cysylltu â'r adolygiad o gyfarfodydd partneriaeth rhanbarthol sy'n cael eu harwain gan DCC Debicki.

Mae pob GTC, unigolyn blaenoriaeth, pobl agored i niwed a gangiau nad ydynt wedi'u diffinio fel GTC yn cael eu hystyried yn awr ar gyfer sgorio MoRiLE Tactegol, sy'n galluogi HGC i bwyso a mesur risgiau a dyrannu adnoddau yn effeithiol. Mae asesiadau MoRiLE Tactegol, wedi'u hymgorffori yn awr yn y model ROCTA (Asesiad Rhanbarthol o Fygythiad Troseddu Cyfundrefnol). Mae'r mwyafrif o GTC wedi derbyn sgôr MoRiLE ac mae gwaith yn parhau i sgorio unigolion blaenoriaeth a Gangiau Llinellau Cyffuriau Cyflwynwyd y data yng nghyfarfod y Bwrdd Troseddu Difrifol a Chyfundrefnol ym mis Mawrth 2019.

Comisiynwyd "*Asesiad o Anghenion Llinellau Cyffuriau*" gan Fwrdd Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru o ganlyniad i Adolygiadau Ardal y Swyddfa Gartref. Bydd yr Asesiad o Anghenion yn arwain at asesiad holistaidd aml-asiantaeth o'r bygythiad a gyflwynir gan Linellau Cyffuriau a bydd yn hysbysu argymhellion. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau ac mae SPOC o'r asiantaethau a sefydliadau dynodedig wedi derbyn gwybodaeth a thasgau. Cyflwynwyd y Cylch Gorchwyl a'r Holiadur i'w cwblhau gan SPOC ym mis Ionawr 2019 a chynhyrchwyd adroddiad drafft ym mis Ebrill 2019.

Comisiynwyd proffil lleol "*Llwybrau i Droseddu Difrifol a Chyfundrefnol*" hefyd. Bydd hyn yn cynnwys ymchwilio ymhellach i nifer o achosion, a fydd yn cynnwys pobl ifanc sy'n gysylltiedig â Throseddu Cyfundrefnol Difrifol yn ardal Sir y Fflint a Wrecsam gan Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint a Wrecsam, CRC a'r gwasanaeth Prawf. Bydd y gwaith yn arwain at nodi tueddiadau ac ysgogwyr er mwyn hysbysu cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar yn well.

Mae'r **Gronfa Ymyrraeth Gynnar Ieuenctid** yn ceisio mynd i'r afael â throseddau difrifol sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru. Bydd y gwaith a wneir drwy'r prosiect hwn yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Aml-asiantaeth Troseddau Difrifol Cymru a'i reoli'n rhanbarthol gan y pedwar Cydlynydd Atal Troseddau Difrifol sydd ym mhob ardal yr Heddlu yng Nghymru. Mae'r Cydlynydd Atal Troseddau Difrifol yn gyfrifol am gynnal a datblygu perthnasoedd gydag asiantaethau partner at ddiben lleihau ysgogwyr troseddau difrifol, cyfranogi mewn materion delio â chyffuriau a llinellau cyffuriau, a nifer yr achosion o gario cyllyll a throseddau cyllyll. Mae'r gwaith hwn wedi'i rannu'n ddwy ran yn gyffredinol:

(1) Y gwaith wythnosol o weinyddu a goruchwylio'r prosiect Cronfa Ymyrraeth Gynnar Ieuenctid, adrodd ar gynnydd a chanlyniadau, darparu'r cyswllt rhwng staff gweithredol mewn asiantaethau partner a'r prosiect.

(2) Cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol a dadansoddwr partneriaeth y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a phobl allweddol eraill mewn asiantaethau partner i sicrhau bod data safonol a chyson yn cael ei gasglu, ei rannu a'i ddadansoddi.

**Blaenoriaeth 5: Sicrhau Cymdogaethau Diogel**

O ran yr **Heddlu'n Deall Materion Cymunedol**, mae Gogledd Cymru'n parhau yn y 7fed safle yn genedlaethol, gyda 73.4% ar gyfer y 12 mis at fis Medi 2018, gostyngiad o 0.3 pp ar y 12 mis at fis Mehefin 2018. Rydym yn parhau yn y 3ydd safle yn ein Grŵp Mwyaf Tebyg ac yn 1af yng Nghymru.

O ran yr **Heddlu yn Ymateb i Faterion Cymunedol**, roedd Gogledd Cymru yn 2il yn genedlaethol gyda 64.2% ar gyfer y 12 mis hyd at fis Medi 2018, cynnydd o 0.6 pp ar y 12 mis hyd at fis Mehefin 2018. Mae hyn yn golygu ein bod yn parhau i fod yn 2il yn ein Grŵp Mwyaf Tebyg ac yn 1af yng Nghymru.

Dyma rai enghreifftiau o Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i bartneriaid yn ystod y cyfnod adrodd i 'sicrhau cymdogaethau diogel'.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Canol Tref y Rhyl –** Mae'r broblem yn cael ei rheoli gan ddefnyddio'r fframwaith Plismona ar Sail Problemau, a chanlyniadau o gynnydd mewn troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol a mân droseddau yng nghanol tref y Rhyl. Bu dwy noswaith pan fu'r problemau'n ddigon difrifol i orchmynion gwasgaru brys gael eu gweithredu, a atebodd y broblem yn y tymor byr. Fodd bynnag, nid yw'r broblem hon yn mynd i gael ei datrys gan yr heddlu yn unig, a'r asiantaethau sy'n cymryd rhan yn awr yr manwerthwyr lleol, eiddo trwyddedig, y cyngor lleol a grwpiau ieuenctid amrywiol. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phartneriaid allweddol er mwyn cydweithio i gytuno ar syniadau cynaliadwy.

**Ymgyrch Blue Gem –** Ymgyrch i nodi ac ymweld â chyfeiriadau tebygol neu bobl sy'n agored i gogio. Ymweliadau ar y cyd gyda landlordiaid/cymdeithasau tai i gynnig cymorth, eu hannog i gofrestru gyda'r cynllun, sy'n caniatáu mynediad/ymweliadau dealledig i'r cyfeiriad er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ddiogel a gwneud yr amgylchedd yn un digroeso pe byddai unrhyw ddelwyr cyffuriau sy'n dymuno defnyddio'r lleoliadau hynny. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau yn ardal Maesgeirchen Bangor, ond mae'n cael ei gyflwyno ar draws Gwynedd a Môn yn awr. Defnyddiwyd pedwar gorchymyn cau yn llwyddiannus ym Maesgeirchen yn ddiweddar, fel rhan o adran orfodi'r ymgyrch.

**Materion Plismona Craidd:**

**Troseddau Cyllyll**

Cofnodwyd chwe dynladdiad rhwng Rhagfyr 2017 a Rhagfyr 2018, gyda dwy o'r troseddau hyn yn cynnwys cyllell. Mae'r ffigurau troseddau cyllyll yn dangos cynnydd o 3% ond mae hyn yr un peth â'r flwyddyn flaenorol. Cafwyd cynnydd o 112% yn nifer y digwyddiadau "meddu ar arf ymosodol" ac roedd 106 yn fwy o droseddau wedi'u cofnodi na'r flwyddyn flaenorol.

**Lladrad**

Oherwydd y nifer isel o ladradau, mae'r canrannau'n ymddangos yn fwy nag y maent: dywedir bod cynnydd o 7% yn nifer y lladradau, ond dim ond cynnydd o 15 yw hyn.

**Perfformiad Cenedlaethol:**

Roedd y ffigurau diweddaraf i'w rhyddhau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cymharu'r ffigurau rhwng Rhagfyr 2017 a Rhagfyr 2018. Roedd cynnydd cyffredinol ym mhob math o droseddau ac eithrio twyll, o 20%, gyda phob categori ac eithrio dwyn gan berson a dwyn beiciau yn gweld cynnydd yn nifer y troseddau. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu sgorio rhwng y cyntaf a'r ail gynnydd mwyaf yn ein grŵp mwyaf tebyg, y tu ôl i Ogledd Swydd Efrog ac yng Nghymru y tu ôl i Went.

Y cynnydd mwyaf sylweddol oedd cynnydd o 98% yn y troseddau stelcio ac aflonyddu. Mae'r cynnydd yn y categori hwn yn bennaf gysylltiedig â chynnwys cyfathrebu maleisus yn y categori cofnodi troseddau aflonyddu a stelcio. Fodd bynnag, credir bod cynnydd wedi bod hefyd yn nifer yr adroddiadau a wnaed am aflonyddu a stelcio.

## <u>Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol</u>

Yn yr adran hon rwy'n darparu crynodeb byr i'r Panel o'r prif bethau yr wyf wedi'u gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

### Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlismona.

O'r 1af Tachwedd 2018 hyd at 1af Mai 2019 fe gyfarfyddais â'r unigolion/sefydliadau canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff o Heddlu Gogledd Cymru), a mynychais y digwyddiadau canlynol:

*Tachwedd:*

- Cymhorthfa Stryd yn Ninbych;
- Cymhorthfa Stryd ym Mangor;
- Ymweliad i Ganolfan Ddigartrefedd;
- Cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet;
- Digwyddiad Lansio Crime Stoppers;
- Cyfarfod Stopio a Chwilio gyda Phrif Gwnstabl Andy Cook a'r Prif Arolygydd Mark Williams;
- Ymweliad Checkpoint i Durham;
- Swper Gwobrau Gwasanaeth Cymuned yr Heddlu;
- Bwrdd Plismona yng Nghaerdydd;
- Cyfarfod gyda Chyfarfod Cymuned y Waun;
- Seremoni Ymgyrch Rhuban Gwyn Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Diddymu Trais yn erbyn Menywod;
- Gwobrau Cymdeithas Ddinesig Wrecsam;
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Stepping Stones;
- Cyfarfod Brecwast Clwb Busnes Gogledd Cymru;
- Cyfarfod gyda Jenny Williams a Neil Ayling;
- Cyfarfod gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru;
- Digwyddiad y Trydydd Sector.

*Rhagfyr:*

- Cyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd;
- Cymhorthfa Stryd yng Nghei Connah;

- Grŵp TSG FABI yn Nhreffynnon;
- Siaradwr Gwadd yn Ysgol Bryn Elian
- Cyfarfod gyda Leaders Unlocked;
- Cyfarfod PACT;
- Cadeirio Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol;
- Cyfarfod gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol;
- Cyfarfod EHRC yng Nghaerdydd;
- Cyfarfod Prif Weithredwr Cyngor Iechyd Cymuned;
- Cinio Nadolig Prosiect Digartrefedd Wrecsam;
- Cymhorthfa Stryd yn Queensferry;
- Cyfarfod gyda CAIS yn y Ceginau Cawl.

*Ionawr:*

- Cyfarfod Diweddaru AC/AS;
- Cyfarfod Rhaglen Addysg Bryste;
- Digwyddiad y Cynulliad gyda Bethan Jenkins;
- Ymweliad i Hwb Gogledd-orllewin NCA;
- Cyfarfod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Weithredwyr;
- Bwrdd Llywodraethu Checkpoint;
- Cyfarfod Trafod Arweinwyr Alcohol;
- Cyfarfod y Trydydd Sector;
- Ymweliad y Dirprwy Weinidog Julie  Morgan;
- Brecwast FUW;
- Bwrdd Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru;
- Ymweliad Ysbyty ICAN;
- Cyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd;
- Gweithdy polisi cyffuriau gyda'r Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar gyfer Diwygio Polisi Cyffuriau yn Llundain;
- Cyfarfod Bwrdd APCC;
- Ymchwilio Ymhellach i Bolisi APCC;
- Rhwydwaith Cenedlaethol Gwrth-fasnachu a Chaethwasiaeth Fodern;
- Cyfarfod Cyffredinol APCC;
- Cadeirio fy Mwrdd Gweithredol Strategol.

*Chwefror:*

- Bwrdd Llywodraethu Checkpoint;
- Ymweliad Home Start;
- Cyfarfod ynglŷn â Chyfweliadau Dychwelyd Adref;
- Cyfarfod EHRC yng Nghaerdydd;
- Prif Gwnstabl Andy Cooke o Heddlu Glannau Mersi yn cyflwyno Darlith Flynyddol Plismona Uned Ymchwil yr Heddlu;
- Darparu tystiolaeth lafar i'r Comisiynydd Cyfiawnder;
- Ymweliad i brosiect Social Navigation ar Ynys Môn;

*Mawrth:*

- Lansio Street Games;
- Cyngerdd Elusennol ym Mangor;
- Cadeirio ein cyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol;

- Siaradwr gwadd i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr;
- Mr Asim Hafeez, Dirprwy Gadeirydd y Swyddfa Gartref a Phennaeth Tîm Trawsbynciol Datganoli a Chymru;
- Siaradwr Gwadd Fforwm Ardal Gwyrfai;
- Cyfarfod gyda Rachel Williams ar oroesi Cam-drin Domestig;
- Bwrdd Llywodraethu Checkpoint;
- Lansio ffilmiau Trosedd Casineb;
- Noson Wobrwyo'r Fonesig Hanmer Uchel Siryf Clwyd;
- Briffio Cymorth Cymru ar Linellau Cyffuriau;
- Ymweliad Ysbyty ICAN;
- Cymhorthfa Stryd yng Nghwm Ceiriog ar yrru oddi ar y ffordd;
- Siaradwr gwadd yng nghyfarfod Un Llais Cymru;
- Cyfiawnder mewn Diwrnod gyda PACT;
- Swper Rhyng-ffydd Blynyddol Cyngor Mwslimiaid Cymru;
- Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona yng Nghaerdydd;
- Cyfarfod y Ddeddf Crwydradaeth;
- Cyfarfod am Raglen DIP yng Nghaerdydd;
- Gwobrau Trechu Trosedd a Gwasanaeth Cymunedol Uchel Siryf Gwynedd.

*Ebrill:*

- Cyfarfod yr Heddlu ar Gaethwasiaeth Fodern;
- Siaradwr Gwadd Merched y Wawr;
- Cymhorthfa Stryd yng Nghorwen;
- Cyfarfod gydag Ysgrifennydd Parhaol y Swyddfa Gartref Syr Phillip Rutnam;
- Cyfarfod Uned Genedlaethol Dioddefwyr Troseddau Economaidd Heddlu Manceinion Fwyaf;
- Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn Llandrindod;
- Cadeirio'r Bwrdd Gweithredol Strategol;
- Digwyddiad codi arian Maer Wrecsam;
- Ymweliad i Brosiect Rhywun Arall;
- Cyfarfod cyflwyno gyda Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych;
- Ymweliad i Sefydliad Tim Parry Sefydliad Johnathan Ball;
- Gwaith argyfwng ar y Ddeddf Crwydradaeth;
- Bwrdd Diogelwch Cymunedol;
- Grant Eich Cymuned, Eich Dewis i Ymweliad The Sea Squad;
- Cyfarfod Mantell Gwynedd.

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chwrdd â chynrychiolwyr cymunedol, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, mae fy Nirprwy a minnau wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau allweddol yn y cyfryngau. Yn eu plith mae:

**Gallai effaith Brexit ar bensiynau olygu 133 yn llai o swyddogion heddlu yng Ngogledd Cymru <https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/Newyddion/Newyddion-Diweddaraf/2018/Brexit-pensions-bombshell-could-mean-133-fewer-police-officers-in-North-Wales.aspx>**

**Crimestoppers yn helpu Taclo Llinellau Sirol**

**Police boss goes back to the future in Denbigh**

**Ymgyrch newydd i atal galwadau 999 diangen**

**Recriwtio mwy o dditectifs i ddelio gyda throseddau newydd**

Heddwas yn annog dioddefwyr trais yn y cartref i ddod ymlaen

Arian troseddwyr i daclo'r bygythiad newydd – Llinellau Cyffuriau

Cyffuriau a Digartrefedd yn lladd 60 o bobl mewn chwe blynedd yn Wrecsam

Cost plismona i godi 38c yr wythnos i'r cartref cyffredin

Pennaeth heddlu yn addo mynd i'r afael â gangiau cyffuriau a cham-drin plant yn rhywiol

Find out what it's like to be locked up in a police cell

Pennaeth yr heddlu yn annog rheolwyr cwmnïau i roi ail gyfle i droseddwyr

Pennaeth Heddlu yn rhybuddio y byddai Brexit heb gytundeb yn gwneud Gogledd Cymru yn lle llai diogel <https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/Newyddion/Newyddion-Diweddaraf/2019/No-Deal-Brexit-would-make-North-Wales-less-safe-warns-police-boss.aspx>

Pennaeth heddlu yn annog y cyhoedd i bleidleisio dros eu hoff gynlluniau ymladd troseddau

Caniatâd i ddymchwel hen orsaf heddlu yn Wrecsam

Dechrau da mewn bywyd yn medru arbed trethdalwyr £500,000 am bob plentyn

Pennaeth yr heddlu'n galw am ddedfrydau llymach i bedoffiliaid

Don't fall prey to cruel fraudsters like my 87-year-old Taid, says victim centre boss

Rheoleiddio i dorri'r gangiau allan a chaniatáu i bobl dyfu eu canabis eu hunain

Pennaeth heddlu yn dathlu hat-tric o wobrau am fod yn agored

**Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd:**

O'r 1af Tachwedd 2018 hyd at 1af Mai 2019 cyfarfyddodd y Dirprwy Gomisiynydd â'r unigolion/sefydliadau canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff o Heddlu Gogledd Cymru), a mynychodd y digwyddiadau canlynol:

*Tachwedd:*

- Bore Coffi i annog gwirfoddolwyr yn Nolgellau;
- Cyfarfod gyda Chydlynydd Cyswllt Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru;
- Cyfarfod yn Nolgellau ar gynigion Plismona mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru;
- Briffio Llywodraeth Cymru ar Ddiddymu Amddiffyniad Cosb Resymol;
- Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth Cymru ar Blismona;
- Ymweliad Checkpoint, Durham;
- Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl;
- Swper Gwobrau Gwasanaeth Cymunedol Ffederasiwn yr Heddlu;
- Cymhorthfa Stryd yng Nghei Connah;
- Grŵp Menywod mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan;
- Lansio'r Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd;
- Noson Gwobrau'r Heddlu;

- Cyfarfod Bwrdd IOM Cymru;
- Gemma Fox o Ganolfan Merched Gogledd Cymru;
- Digwyddiad Ymgysylltu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyda'r Trydydd Sector

*Rhagfyr:*

- Grŵp Rhanbarthol IOM;
- Panel yr Heddlu a Throsedd;
- Gwasanaeth Carolau'r Gwasanaethau Brys;
- Ali Roberts o Leaders Unlocked;
- Cyfarfod am Uned Breswyl i Droseddwyr Benywaidd yng Ngogledd Cymru;
- Cyfarfod Cymunedol ym Maesgeirchen, Bangor;
- Y Cynghorydd Llinos Medi ynghylch Wylfa Newydd;
- Diweddaru Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Cymru;
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol;
- Cyfarfod am y strategaeth Plant;
- Cyfarfod i drafod IOM gyda NPS.

*Ionawr:*

- Cyfarfod pennu'r gyllideb;
- Cyfarfod Ymgysylltu AC ac AS Gogledd Cymru;
- Ymweliad i Ganolfan Merched Gogledd Cymru;
- Cyfarfod Cynllun Braenaru Merched;
- Cyfarfod yn Wrecsam i drafod y Gynhadledd sydd wedi'i threfnu ar Gamfanteisio;
- Digwyddiad ym Mhrifysgol Glyndŵr i ddathlu'r 150 llofnodwr i'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi;
- Ymweliad Prif Weinidog Cymru i'r Hwb Gofal Cymunedol yn Wrecsam;
- Ymweliad i Cymorth i Fenywod ym Mhenygroes;
- Taith Gynllunio Ymgyrchoedd;
- Siaradwr gwadd gyda Merched y Wawr, Llandegfan;
- Cyfarfod Iechyd Meddwl gyda chynrychiolwyr o BIPBC;
- Panel yr Heddlu a Throsedd;

*Chwefror:*

- Bwrdd Llywodraethu Checkpoint;
- Digwyddiad i nodi Diwrnod Dim Goddefgarwch at Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn Bawso, Wrecsam;
- Cyfarfod Gweithredu Cadarnhaol;
- Ymweliad Llywio Cymdeithasol Ynys Môn;
- Cyfarfod Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol;
- Bwrdd Plismona gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Paul Glaze Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol;
- Cyfarfod Grŵp Merched mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan;
- Cynhadledd Camfanteisio Troseddol yng Ngholeg Cambria, Cei Connah;

- Grŵp Plismona Cymru Gyfan.

*Mawrth:*

- Elder Abuse Cymru – Cynhadledd flynyddol;
- Cynhadledd Merched mewn Uwch-swyddi Plismona;
- Cyfarfod Rhanbarthol IOM;
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol;
- Cyfarfod Rhanddeiliaid Llif Gwaith Oedolion Ifanc a'r Rhai sy'n Gadael Gofal
- Cyfarfod gyda Rheolwr Rhaglen Cyfiawnder Newydd All Wales Women
- Bwrdd Llywodraethu Checkpoint;
- Trafodaeth Fanwl APCC ar Dwyll;

*Ebrill:*

- Gweithdy Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg;
- Gwobrau Gwasanaeth Hir yr Heddlu;
- Cyfarfod gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron ar Droseddau Casineb;
- Grŵp Cyfiawnder All Wales Women;
- Siaradwr Gwadd Merched y Wawr, yr Wyddgrug;
- Grŵp Plismona Cymru Gyfan;
- Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu;
- Darparu mewnbwn ar rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran recriwtiaid newydd;
- Bwrdd Gweithredol Strategol;
- Cyfarfod gyda Dirprwy PCC De Cymru ar Hwb Atal Trais i Gymru;
- One Stop Llandygai;
- Uchel Siryf Gwynedd;

**<u>Crynodeb o recriwtio i swyddi twf pennu'r gyllideb</u>**

Yn ystod y broses o bennu cyllideb 2019-20, rhoddwyd cymeradwyaeth gan y Panel i ddatblygu 34 swydd Swyddog Heddlu a 6 swydd Staff Heddlu. Gofynnodd y Panel am wybodaeth reolaidd am ein cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun recriwtio y cytunwyd arno.

Oherwydd yr heriau o lenwi rolau Swyddogion Heddlu a'r amserlenni hir cysylltiedig, pan fydd yn briodol gwneud hynny, mae rhai o'r swyddi swyddogion wedi'u trosi yn swyddi Staff Heddlu. Mae'r rhain yn cynnwys PC Fforensig Digidol a 3 Swyddog Cam-drin Domestig. Mae hyn wedi newid y gofyniad i lenwi 30 swydd Swyddog Heddlu a 10 swydd Staff Heddlu. Mae'r gwaith o recriwtio i'r rolau staff heddlu yn mynd rhagddo'n dda.

Mae'r broses o recriwtio i'r rolau Swyddogion Heddlu yn cymryd llawer mwy o amser oherwydd mae angen i gyfanswm nifer y Swyddogion Heddlu yn y sefydliad gynyddu er mwyn sicrhau nad oes bylchau pan fydd y swyddi twf hyn yn cael eu llenwi. Roedd y cyfnod recriwtio a hyfforddi yn cynnwys cynhyrchu Cwnstabl annibynnol yr Heddlu yn llawer mwy na chyflwyno aelod o staff yr heddlu a bydd yn cymryd cryn amser i lenwi'r swyddi twf hyn. Fodd bynnag, mae cynllun ar waith i gyflawni hyn cyn gynted â phosibl.

Mae'r amcanestyniadau cynllunio'r gweithlu yn dangos yn awr y bydd tua hanner y swyddi Swyddogion Heddlu wedi llenwi ym mis Rhagfyr 2019, gyda'r hanner arall yn Chwefror 2020. Mae'r dyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r ddau grŵp nesaf o Swyddogion yr Heddlu yn dod yn annibynnol. Bwriedir trafod cynnydd yr amserlen hon mewn cyfarfod gyda'r Prif Swyddogion yn y ddwy wythnos nesaf, felly mae'n parhau i dderbyn sylw ar y lefel uchaf.

**Comisiynu**

Yn ystod y cyfnod hwn, ymgymerwyd â nifer o ddarnau o waith wrth baratoi ar gyfer Cynllun Dargyfeirio newydd Checkpoint Cymru.

Datblygwyd manyleb Cynllun Braenaru Merched Gogledd Cymru, a fydd yn cefnogi'r tair dalfa ar draws Gogledd Cymru. Mae'r Cynllun Braenaru Merched wedi bod yn rhaglen beilot yn y Ddalfa yn Llanelwy a bydd yn cael ei ymestyn yn awr i gefnogi'r broes gyfeirio ar gyfer pob merch ar draws Gogledd Cymru. Bydd y contract hwn yn weithredol erbyn mis Hydref, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Chynllun Checkpoint Cymru, a fydd hefyd yn cael ei lansio ar 1af Hydref.

Mae gwaith pellach yn cael ei ddatblygu gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) ar gyfer y rhaglen newydd o ymyrraeth cyffuriau er mwyn sicrhau bod yr holl newidiadau presennol yn weithredol a'u bod yn cyd-fynd er mwyn darparu'r cynllun newydd yn y dyfodol.

Cafodd pob un o'r prosiectau a oedd yn cael eu cefnogi ar gyfer Cronfa Ymyrraeth Gynnar y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ymweliadau gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac mae adroddiadau wedi'u hanfon o ran perfformiad.

Mae gwaith wedi'i wneud ar gais cydweithredol ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cynnwys Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, De Cymru, Dyfed Powys a Gwent. Mae'r gwaith hwn yn edrych yn benodol ar ddull amlochrog i ddeall a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais difrifol drwy ymyrraeth gynnar a gwaith atal cynnar, gyda phlant o dan 18 oed. Drwy ddefnyddio partneriaid cyflawni ac adeiladu ar yr ymyrraeth leol bresennol, bydd y prosiect yn galluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu a chael eu cyfeirio oddi wrth y risg o gamfantais a throseddau cyfundrefnol difrifol. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru Gydlynydd Atal Troseddau Difrifol sy'n cael ei ariannu drwy'r prosiect hwn a bydd yn gweithio gyda phartneriaid i alluogi i arfer gorau a dysgu gael eu rhannu ar sail Cymru gyfan.

Ym mis Mawrth, fel rhan o'r prosiect uchod, fe agorodd Stephen Hughes, Prif Swyddog Gweithredol, Ddiwrnod Ymgysylltu ar gyfer Ymarferwyr Cyfiawnder Troseddol Chwaraeon ac Ymgysylltu. Diben y diwrnod oedd trafod y cyfleoedd sy'n bodoli i ddefnyddio chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel llwybr gyfeirio fwy buddiol i'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o droseddu neu aildroseddu. Cafwyd presenoldeb dan gan bob asiantaeth yn y digwyddiad hwn a chafwyd trafodaethau iach am yr heriau o ymgysylltu â phobl agored i niwed yn y gymuned.

**Cronfa Eich Cymuned, Eich Dewis**

Cafodd y Gronfa hon ei sefydlu gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT), ac mae'n cael ei hariannu ar y cyd drwy arian sydd wedi'i adfer drwy'r Ddeddf Enillion Troseddau, gan ddefnyddio arian sydd wedi'i atafael gan droseddwyr gyda'r gweddill yn cael ei ddarparu gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Eleni, cynyddodd y swm a oedd ar gael o £40,000 i £60,000. Roedd cynnig o ddau ddyfarniad o £2,500 ar gael ar gyfer pob sir yng Ngogledd Cymru, gyda £5,000 yr un ar gyfer dau grŵp sy'n gweithio mewn

tair sir neu fwy, a diolch i'r cyllid ychwanegol gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu eleni, roedd dau grant newydd o £10,000. Dewiswyd y grwpiau llwyddiannus drwy bleidlais gyhoeddus.

Daw'r arian ar gyfer y dyfarniadau yn rhannol o arian sydd wedi'i atafaelu gan y llysoedd drwy'r Ddeddf Enillion Troseddau, gyda'r gweddill yn dod o Gronfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Y grwpiau llwyddiannus eleni oedd:-

| **Ymgeisydd** | **Prosiect** | **Ardal** | **Swm** |
|---|---|---|---|
| Clwb Ieuenctid Caergybi | It's What you know - Not Who You Know | Caergybi | 2500 |
| Cymuned Llanddona | Calon y Pentref | Llanddona | 2500 |
| Clwb Ieuenctid Penysarn | Rhyfel Byd Cyntaf Penysarn boys | Penysarn | 1000 |
| Hope Restored | Cefnogi'r digartref | Llandudno | 2000 |
| Colwyn bay Watersports | Sea Squaddies | Bae Colwyn | 2500 |
| DASU | Rhaglen Rhyddid | Sir Ddinbych | 2500 |
| Clwb Bocsio y Rhyl | Bocsio | Y Rhyl | 2000 |
| Youth Sheds | Youth Sedderz | Abergele/Bae Cinmel /Towyn | 1000 |
| Cobra Life | Success For Life | Sir y Fflint | 2489 |
| Grŵp Pysgota Cei Connah a'r Ardal | Adnewyddu Llyn Pysgota Wepre | Cei Connah | 2500 |
| Rainbow Biz | Grwpiau galw heibio | Yr Wyddgrug | 1000 |
| Academi West End Bangor | Clwb Ieuenctid newydd | Bangor | 2500 |
| Gisda | LGBTQ+ clwb ieuenctid | Blaenau Ffestiniog/Caernarfon | 2500 |
| Fforwm Cymunedol y Waun | Diogelu ein strydoedd | Y Waun | 2500 |
| Côr Wrecsam CAIS | Côr One-Love | Wrecsam | 2500 |
| NW horse Watch | Horse watch | Gogledd Cymru | 4920 |
| Only Boys Aloud | Corau Gogledd Cymru | Rhyl/Wrecsam/Caergybi/ y Rhyl | 5000 |
| Aura Leisure | Ymgysylltiad Cymunedol Sir y Fflint | Sir y Fflint | 10000 |
| Centre Sign Sight Sound | Do you know it's happening? | | 9992 |
| | | **CYFANSWM** | **£61,901** |

**Dioddefwyr**

Mae pob gwasanaeth sydd wedi'u comisiynu fel rhan o gyllid ar gyfer dioddefwyr ar waith ar gyfer 2019-20.

Mae'r Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr wedi'i chaffael a'r contractwr llwyddiannus oedd Cymorth i Ddioddefwyr. Cyfanswm yr achosion a gefnogwyd yn ystod 2018-19 drwy'r ganolfan oedd 45,430. Mae'r ganolfan yn cefnogi dioddefwyr pob math o droseddau a'r gyfradd gysylltu yw'r uchaf yng Nghymru ar 90.69% ac mae yn y pump uchaf yng Nghymru a Lloegr.

Fe gomisiynodd y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr ffilm a gafodd ei lansio ar 15 Mawrth i gynulleidfa o tua 30 o weithwyr rheng flaen o asiantaethau a oedd yn cynnwys y gwasanaeth tystion, Stepping Stones, AVOW, Gorwel, y gwasanaeth Prawf, CPS, Ieuenctid a llawer mwy. Roedd y digwyddiad lansio yn cynnwys dangos ffilm y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr a Throseddau Casineb a sesiwn holi ac ateb gan y staff. Mae'r ddolen i'r ffilm ar gael yn https://www.youtube.com/watch?v=laonPQklCnU

**Diweddariad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS)**

Mae dau adroddiad Cenedlaethol HMICFRS wedi'u cyhoeddi ers Rhagfyr 2018. Y cyntaf oedd "Mental Health – Picking up the Pieces" a oedd yn nodi'r pwysau diangen a roddir ar yr heddlu yn awr oherwydd methiant gwasanaethau eraill. Rwy'n atodi fy ymateb llawn i'r arolwg hwn isod.

2019.01.07 Sajid Javid- Policing Mental

Yr ail arolwg oedd "Fraud: Time to choose" ac er nad oedd Heddlu Gogledd Cymru yn un o'r heddluoedd a arolygwyd roedd un argymhelliad ar gyfer holl ardaloedd yr heddlu. Rwy'n atodi fy ymateb llawn i'r arolwg hwn isod.

2019.04.24 Sajid Javid-Fraud Time to (

Cynhaliwyd arolwg PEEL 2019 yn yr wythnos yn dechrau 29ain Ebrill a byddwn yn derbyn yr adroddiad maes o law. Bydd y Panel yn derbyn fy ymateb i ganlyniadau'r arolwg hwn yng nghyfarfod y panel yn y dyfodol.

**Ymgynghori**

Rhwng 3ydd Rhagfyr a'r 14eg Ionawr cynhaliais arolwg ar-lein yn gofyn am farn pobl Gogledd Cymru ar blismona a'r canfyddiadau. Mae'r arolwg llawn wedi'i atodi isod.

Precept Survey Report 2019-20.pdf

Adroddiad Arolwg Ymgynghori'r Cynllun

**Y Ddalfa**

O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 mae gan bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddyletswydd statudol i sefydlu a chynnal Cynllun Ymweliadau Annibynnol â'r Ddalfa.

Er mai fy nghyfrifoldeb i yn bennaf yw gweithrediad y cynllun, rwy'n cyflawni'r rôl hon mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl.

Mae Cynllun Ymweliadau Annibynnol â'r Ddalfa yng Ngogledd Cymru yn galluogi cynrychiolwyr sydd wedi'u dewis o'r gymuned leol i arsylwi, rhoi sylwadau ac adrodd ar yr amodau y mae pobl yn cael eu cadw yn y ddalfa. Yn ogystal, mae'n cynnig lefel uwch o ddiogelwch i bersonau sy'n cael eu cadw a'r swyddogion heddlu drwy ddarparu proses graffu annibynnol o driniaeth personau sy'n cael eu cadw a'r amodau y maent yn cael eu cadw.

Mae pob un o ymwelwyr â'r ddalfa yn wirfoddolwyr ac yn gweithio fel rhan o dîm i gyflawni targedau'r rhaglen ymweld. Ar hyn o bryd mae 22 o ymwelwyr â'r ddalfa yng Ngogledd Cymru, sy'n ymweld â 3 ystafell benodol y ddalfa; y rhain yw Dwyrain (Llai), Canolog (Llanelwy) a Gorllewin (Caernarfon). Bydd ymweliadau ond yn cael eu cynnal yn yr Wyddgrug, Caergybi a Dolgellau pan fydd Ystafelloedd y Ddalfa yn cael eu defnyddio.

Rwyf wedi cynnal ymarfer recriwtio ers y Flwyddyn Newydd ac rwy'n falch o ddatgan y bydd 2 wirfoddolwr arall yn ymuno â'r Cynllun yn fuan.

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 cynhaliodd ymwelwyr â'r ddalfa 132 o ymweliadau dirybudd i'r ddalfa a siarad gyda 344 o garcharorion ac arsylwi ar 72 o garcharorion eraill. Ni nodwyd unrhyw faterion difrifol o ran eu cadw.

Mae'r adborth y mae swyddogion a fy swyddfa yn ei dderbyn yn ystod yr ymweliadau dirybudd hyn yn hollbwysig, mae ymwelwyr â'r ddalfa yn darparu sicrwydd i'r cyhoedd bod pobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn ddiogel a bod eu hawliau'n cael eu parchu.

Eleni fe wnaethom dderbyn gwobr genedlaethol glodfawr am ansawdd ein cynllun annibynnol ymweliadau â'r ddalfa. Cyflwynwyd gwobrau cyntaf Sicrwydd Ansawdd Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) mewn seremoni yn Nhŷ'r Arglwyddi ddydd Mercher 15 Mai.

**Diwygio Cwynion**

Bydd Deddf Plismona a Throseddau 2017 yn gwneud newidiadau mawr i'r system gwynion pan ddaw'r adrannau perthnasol i rym. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Bydd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gyfrifoldeb penodol i ddwyn Prif Swyddogion i gyfrif am y ffordd y mae'r heddlu'n ymdrin â chwynion
- Bydd yn rhaid cofnodi pob cwyn
- Bydd apeliadau yn cael eu disodli gan system newydd o adolygiadau, y bwriedir iddi fod yn symlach na'r system bresennol
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu fydd y corff adolygu ar gyfer adolygiadau/apeliadau sy'n cael eu clywed gan brif swyddogion yn awr
- Bydd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu opsiwn hefyd i fod yn gyfrifol am dderbyn cwynion
- Os byddant yn ymgymryd â'r opsiwn hwn, gallant ddewis hefyd i fod yn gyfrifol am hysbysu'r achwynwr

- Bydd y diffiniad o gŵyn yn cael ei hegluro
- Bydd mwy o bwyslais ar ddysgu drwy ein camgymeriadau a chefnogaeth i wella perfformiad

Er nad yw'r adrannau hyn o Ddeddf Plismona a Throseddau 2017 wedi'i fabwysiadu mae Heddlu Gogledd Cymru a swyddfa'r Comisiynydd wedi penderfynu dechrau gweithio at y newidiadau a fydd yn cael eu gweithredu gan y ddeddfwriaeth hon.

Felly rydym wedi sefydlu Bwrdd gyda swyddogion allweddol o bob rhan o'r Heddlu a swyddfa'r Comisiynydd i weithio tuag at y newidiadau hyn. Mae Rhaglen Newid Cwynion a Chamymddwyn wedi'i datblygu a bydd yn ceisio:

- Datblygu proses / gweithdrefn cwynion a chamymddwyn Heddlu Gogledd Cymru sy'n gymesur â'r gofynion deddfwriaethol cenedlaethol.
- Hwyluso'r newid diwylliant sefydliadol a chefnogi prosesau i sicrhau bod y Gweithdrefnau Arfer y mae Angen eu Gwella a Pherfformiad Anfoddhaol (fel y bo'n berthnasol).
- Diwygio'r gweithdrefnau cwynion a chamymddwyn i Staff yr Heddlu.

Ar ôl gweithredu'r newidiadau yn y Ddeddf, byddai'n fuddiol i'r Panel Heddlu a Throseddu dderbyn cyflwyniad/briffiad llawn ar y newidiadau. Rydym yn rhagweld cynnydd yn nifer y cwynion i'w hystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu oherwydd bydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fwy o bwerau o dan y ddeddfwriaeth newydd.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd – 2019-2023**

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd yr Heddlu a PCC wedi'i gyhoeddi yn awr ac mae ar gael ar fy ngwefan.

Cyflwynais wybodaeth i'r Panel fis Medi y llynedd am rywfaint o'r gwaith a wnaed i gynhyrchu'r cynllun newydd a dywedais wrth y Panel y gallant hwy gyfrannu hefyd i'r ymgynghoriad a fyddai'n helpu i hysbysu ein blaenoriaethau cydraddoldeb strategol newydd. Yn ogystal, ac yn unol â gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi ymgynghori â rhanddeiliaid, partneriaid a staff i sefydlu'r blaenoriaethau newydd ar gyfer 2019-2023. Mae rhai o'n blaenoriaeth yn parhau o'n cynllun blaenorol wrth gwrs, gan gynnwys mynd i'r afael â throseddau casineb a sicrhau defnydd effeithiol a theg o bwerau. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gweld cynnydd yn awr mewn gweithgarwch i sicrhau bod gan y gweithlu gynrychiolaeth briodol o ran y Gymraeg, rhyw, hil a nodweddion gwarchodedig eraill. Yn ogystal, bydd mwy o weithgarwch ynghylch sut y byddwn yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Yn naturiol, bydd yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i gydweithio i gyflawni'r cynllun, a fydd yn nodi'r camau gweithredu a fydd yn cefnogi dulliau cyflawni'r cynllun cydraddoldeb. Mae fy swyddfa yn mynychu'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a gynhelir yn chwarterol er mwyn monitro cynnydd ar y blaenoriaethau cydraddoldeb.

**Marc Ansawdd Tryloywder**

Roeddwn yn falch iawn bod fy swyddfa wedi derbyn y Marc Ansawdd Tryloywder gan CoPaCC am y drydedd flwyddyn yn olynol. Cyflwynir y wobr hon am sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Rwy'n credu'n gryf y dylwn fod yn gwbl agored ynglŷn â'r hyn mae fy swyddfa yn ei wneud, felly mae ennill y marc ansawdd hwn am y drydedd flwyddyn olynol yn golygu llawer iawn i mi.

**Gohebiaeth**

Y ffigurau gohebiaeth o 1af Tachwedd 2018 i 1af Mai 2019:

| **Categori Gohebiaeth** | **Nifer** |
|---|---|
| Gohebiaeth ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn benodol | *195* |
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 12 |
| Gohebiaeth gyffredinol - gan gynnwys papurau ar gyfer cyfarfodydd a gwybodaeth gyffredinol | 481 |
| Gwahoddiadau | 57 |
| Cyfeiriwyd at Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Cyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol | 79<br><br>25 |

__Rhestr termau:__

**APCC**: Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd

**BAWSO**: Sefydliadau gwirfoddol Cymru gyfan, sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr a phobl BAME sydd wedi'u heffeithio neu sydd mewn perygl o Gam-drin Domestig a phob math o drais

**CSE/CCE**: Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant / Camfanteisio Troseddol ar Blant

**DVPN/DVPO**: Hysbysiad Diogelwch Trais Domestig/Gorchymyn Diogelwch Trais Domestig

**IDVA**: Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig

**IOM**: Rheoli Troseddwyr Integredig

**MARAC**: Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth

**NRM**: Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

**PACT**: Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned

**POLIT:** Tîm Ymchwilio i Bedoffiliaid a'r Rhyngrwyd

**SARC**: Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

**VAWDASV**: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

## Adroddiad o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid – Alldro 2019/19**

**Cyfarfod:** **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 17 Mehefin 2019**

**Awdur:** **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

### 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y papur hwn yw darparu diweddariad i aelodau'r panel ar:

- Sefyllfa Alldro 2018/2019

### 2. Argymhellion

2.1 Nodi'r adroddiad.

### 3. Alldro 2018/19

3.1 Bydd y ffigurau yn yr adroddiad hwn yn cael eu harchwilio. Bydd y cyfrifon wedi eu harchwilio ar gael ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar ôl 31 Gorffennaf 2019.

3.2 Cymeradwywyd y gyllideb net o £146.467m yn y Panel Heddlu a Throseddau ar 22 Ionawr 2018. Mae hyn yn cynnwys £0.803 miliwn i Swyddfa'r Comisiynydd a £1.467 miliwn ar gyfer y Gronfa Diogelwch Cymunedol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Y sefyllfa gyffredinol oedd tanwariant o £0.689m. Mae manylion yr amrywiadau gwahanol isod:

- Gweithwyr – gorwariant o £0.676m.

Dyma effaith net nifer o ffactorau, y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw gorwariant net mewn taliadau pensiwn uniongyrchol ychwanegol (£0.584m). Mae hyn o ganlyniad i 13 ymddeoliad ar sail salwch yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â'r 7 y cyllidwyd ar eu cyfer. Bydd nifer yr ymddeoliadau ar sail salwch yn cael eu monitro yn ystod 2019/20 i ganfod a yw'n debygol o ddychwelyd yn y dyfodol.

- Eiddo – tanwariant o £0.243m

Mae cyllidebau wedi cael eu rheoli yn ofalus er mwyn caniatáu ar gyfer cynnydd mewn costau ynni.

- Cludiant – tanwariant o £0.341m

Mae hyn yn unol â'r rhagamcan blaenorol, gyda'r tanwariant yn deillio o arbedion ar danwydd, cost PIVs a gostyngiad mewn costau Cymorth Awyr.

- Cyflenwadau a Gwasanaethau – gorwariant o £0.370m
  - Mae gorwariant o £0.181m mewn TG a chyfathrebu, yn deillio o'r adolygiad o'r llinellau sefydlog, er mwyn amlygu pa linellau y gellid eu canslo. Mae'r adolygiad hwn bellach wedi'i gwblhau, ac mae'r mater wedi cael sylw.

- Mae gorwariant o £0.585m mewn cyflenwadau a gwasanaethau eraill. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i gostau ymgynghori mewn perthynas â chytundeb Wylfa, sydd wedi ei gosod yn erbyn incwm ychwanegol oddi wrth Horizon.
- Mae tanwariant mewn fforensig o £0.176m. Mae angen y gofod hwn i ddelio â'r cynnydd disgwyliedig mewn costau wrth i'r contractau cenedlaethol gael ei haildrefnu.

- Cafwyd incwm ychwanegol i'r swm o £1.781m. Mae'r symiau mawr yn cynnwys:
  - Ad-daliad yn dilyn ailbrisio cyfraddau annomestig: £0.061m
  - Taliadau yswiriant y gellir eu hadfer: £0.155m
  - Incwm llwyth annormal ychwanegol: £0.123m
  - Incwm GoSafe ychwanegol: £0.063m

  Mae'r incwm grant ychwanegol yn cynnwys:
  - Grant Gwytnwch Gadael y DU: £0.102m
  - Grant Seibr: £0.106m
  - Grant Llywodraeth Cymru: £0.132m
  - Grant Porth: £0.236m
  - Grant PCSO: £0.053m
  - Grant Swyddog Cyswllt Ysgol: £0.024m

3.3 Rhoddir crynodeb o'r gyllideb a'r alldro isod:

| | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Cyllideb 31 Maw 2019 £'000 | Gwir 31 Maw 2019 £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | 127,721 | 128,775 | 129,451 | 676 |
| Eiddo | 7,783 | 7,991 | 7,748 | (243) |
| Cludiant | 3,865 | 3,854 | 3,513 | (341) |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 20,944 | 20,961 | 21,331 | 370 |
| Taliadau Dyledion a Chyfraniadau at Gyfalaf | 1,864 | 2,364 | 2,844 | 480 |
| Cronfa diogelwch cymunedol | 1,467 | 1,467 | 1,208 | (259) |
| Gwasanaethau Eraill a Gomisiynwyd | - | 2,534 | 2,534 | - |
| **Cyfanswm Gwariant** | **163,644** | **167,946** | **168,629** | **683** |
| | | | | |
| **Incwm** | **(17,298)** | **(21,396)** | **(23,177)** | **(1,781)** |
| | | | | |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | **121** | **(83)** | **326** | **409** |
| | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant Net** | **146,467** | **146,467** | **145,778** | **(689)** |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Grantiau | (71,728) | (71,728) | (71,728) | - |
| Praesept | (74,739) | (74,739) | (74,739) | - |
| **CYFANSWM CYLLID** | **(146,467)** | **(146,467)** | **(146,467)** | **-** |
| | | | | |
| **Tanwariant net** | | | | **(689)** |

3.4 Hefyd wedi ei gynnwys uchod mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn oedd £801,643. Yr alldro oedd £799,615.29.

3.5 Mae'r tanwariant net o £0.689m wedi cael ei ddyrannu i'r Gronfa Gyfalaf. Mae crynodeb o'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys y symudiadau a gynllunnir a'r trafodion cyfalaf wedi'u dangos ym mharagraff 5.

## 4. Cyfalaf

4.1 Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2018/19 oedd £11.346 miliwn. Gan ystyried y llithriant a mân ychwanegiadau a dileadau, mae hyn wedi cynyddu i £12.908m. Yr alldro cyfalaf ar gyfer 2018/19 oedd £11.274m.

4.2 Mae gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu faint o'r amrywiant y dylid ei gario drosodd (llithriant) a faint sy'n cynrychioli tanwariant ychwanegol y gellid ei ailddyrannu.

| Cynllun | Gwariant wedi'i gario drosodd £'000 | Cyllideb 2018/19 (ailbroffiliwyd) £'000 | Gwariant 2018/19 £'000 | Tanwariant/ Llithriant | Cyllideb - Blynyddoedd i ddod £'000 | Cyfanswm cyllideb £'000 | Gwariant ar 31.03.19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleuster newydd Llai Wrecsam | 18,651 | 2,649 | 2,468 | (181) | - | 21,300 | 21,119 |
| Cyfleuster canol tref Wrecsam | 246 | 1,622 | 1,520 | (102) | - | 1,868 | 633 |
| Adeilad newydd Llandudno | 2,742 | 63 | - | (63) | - | 2,805 | 2,742 |
| Ystadau eraill | 1,049 | 3,081 | 2,894 | (187) | 6,406 | 10,536 | 3,943 |
| Cerbydau ac offer | 8,161 | 2,383 | 1,821 | (562) | 5,755 | 16,299 | 9,982 |
| TG a Chyfathrebu | 5,445 | 3,110 | 2,571 | (539) | 3,869 | 12,424 | 8,555 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf** | **36,294** | **12,908** | **11,274** | **(1,634)** | **16,030** | **65,232** | **44,506** |

## 5. Cronfeydd wrth gefn

5.1 Mae angen i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd gadw cronfeydd wrth gefn. Mae crynodeb o'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn fel a ganlyn. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn Statement of Accounts.

| Symudiadau yn y Cronfeydd wrth gefn 2018-19 | Balans ar 31 Mawrth 2018<br><br>£'000 | Trosglwyddiadau Allan<br>2018-2019<br><br>£'000 | Trosglwyddiadau i Mewn<br>2018-2019<br><br>£'000 | Balans ar 31 Mawrth 2018<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa wrth gefn gyffredinol | 5,189 | -797 | 0 | 4,392 |
| **Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi** | | | | |
| Cronfa wrth gefn gyfalaf | 2,341 | -970 | 689 | 2,060 |
| Cronfa wrth gefn salwch pensiynau | 915 | 0 | 0 | 915 |
| Cronfa wrth gefn PFI | 4,212 | 0 | 121 | 4,333 |
| Cronfa wrth gefn Digwyddiad Mawr | 2,435 | 0 | 0 | 2,435 |
| Cronfa wrth gefn Yswiriant | 1,173 | 0 | 0 | 1,173 |
| Ystadau, Diogelwch a Chynnal a Chadw | 1,237 | -204 | 0 | 1,033 |
| Cronfa wrth gefn Balansau Partneriaethau | 552 | 0 | 101 | 653 |
| Cronfa wrth gefn Rheoli Newid | 5,881 | 0 | 68 | 5,949 |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd | 227 | -25 | 259 | 461 |
| Cronfa wrth gefn Gyfreithiol (OPCC) | 51 | 0 | 5 | 56 |
| Cyllidebau Partneriaeth (OPCC) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa wrth gefn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd | 182 | 0 | 0 | 182 |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | **19,206** | **-1,199** | **1,243** | **19,250** |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Refeniw** | **24,395** | **-1,996** | **1,243** | **23,642** |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf** | **1,487** | **-1,702** | **224** | **9** |
| **Cyfanswm yr Holl Gronfeydd Wrth Gefn** | **25,882** | **-3,698** | **1,467** | **23,651** |

## 6 Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau ar wahân o ran amrywiaeth |
| Ariannol | Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Banel yr Heddlu a Throsedd am y sefyllfa refeniw ac alldro cyfalaf fel y saif ddiwedd Mawrth 2019.<br><br>Mae cyllid digonol yn hanfodol i gyflawni cynllun yr heddlu a throsedd ac i ddiwallu ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| RISG | Dim goblygiadau risg ar wahân |

| | |
|---|---|
| Cynllun yr Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân. |

EITEM RHAGLEN 11a

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | Mehefin 2019 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Panel Heddlu a Throsedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Dawn Hughes, Uwch-swyddog Cymorth i Banel yr Heddlu a Throsedd |
| **TESTUN:** | Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2018/19 |
| **ADRODDIAD EITHRIEDIG:** | Heb ei eithrio |

## 1. CRYNODEB A PHWYNTIAU ALLWEDDOL

1.1 Cyhoeddi manylion costau gweinyddol, costau cyfieithu a hawliadau Aelodau unigol o'r Panel am dreuliau a lwfansau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, fel sy'n ofynnol gan Gytundeb y Swyddfa Gartref ar gyfer 2018/19.

1.2 Er mwyn caniatáu craffu cyhoeddus o wariant y Panel, mae gofyniad tryloywder wedi cael ei roi fel amod ar y taliad grant sengl, ac felly byddai angen i'r Panel fel isafswm, ar ei wefan, gyhoeddi manylion ei holl wariant.

1.3 Mae Cylch Gorchwyl y Panel eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi treuliau Aelodau yn flynyddol a'u rhyddhau drwy wefan yr Awdurdod Cynnal, y Panel a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

1.4 Dangosir manylion costau'r Panel ar gyfer 2018/19 yn Atodiad 1 a dangosir manylion treuliau a gaiff eu talu i aelodau unigol y Panel ar gyfer 2018/19 yn Atodiad 2.

1.5 Oherwydd cymeradwyo Cynllun Heddlu a Throsedd yng nghyfarfod y Panel ym mis Ionawr 2019, arweiniodd hyn at ohirio'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth 2019. Mae'n briodol i'r Panel gymeradwyo Cynllun Heddlu a Throsedd yr un pryd â'r praesept (Ionawr), felly, wth fynd ymlaen, dylai'r Panel ystyried a oes angen y cyfarfod ym mis Mawrth, gan mai hwn yw'r brif eitem ar y rhaglen; yn amlwg, gall gyfarfodydd arbennig gael eu galw os a phryd mae angen.

.

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Cyhoeddi costau gweinyddol a chostau cyfieithu’r Panel a hawliadau Aelodau unigol o’r Panel am dreuliau a lwfansau i’w nodi a’u cyhoeddi fel sy’n ofynnol.

2.2 Ystyried y rhestr o gyfarfodydd ar gyfer 2019/20.

## 3. MANYLION YR ADRODDIAD

3.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu dyraniad grant o £70,975 i'r Awdurdod Cynnal ar gyfer cynnal Panel yr Heddlu a Throsedd i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

3.2 Cyflwynwyd y Panel i graffu ar gamau gweithredu a phenderfyniadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Comisiynwyr). Bydd y Panel yn darparu cefnogaeth a her i'r Comisiynwyr wrth ymarfer eu swyddogaethau.

3.3 Dyrennir y grant o dan dri phennawd: Costau Gweinyddol, Treuliau Aelodau a Chostau Cyfieithu. Gall yr Awdurdod Cynnal drosglwyddo cyllid rhwng y tri phennawd, cyhyd na warir mwy na chyfanswm y grant a hawlir.

3.4 Mae Cynllun Lwfans y Panel yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau'r panel fel a ganlyn:

- Gwneir taliadau drwy ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), sydd ag uchafswm sy’n gyfwerth â 7 diwrnod llawn y flwyddyn.
- Mae gan Aelodau’r Panel yr hawl i hawlio lwfansau teithio ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd.

3.5 Mae'n rhaid i'r Panel gyhoeddi manylion y treuliau a dalwyd i’w Aelodau yn flynyddol a bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu i'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru at ddibenion eglurder ac i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu.

3.6 Roedd gwariant y Panel yn 2017/18 oddeutu £82,000 ac roedd rhaid i unrhyw orwariant gael ei ysgwyddo gan yr Awdurdod Cynnal, yn yr achos hwn amser swyddog ydoedd. Mae’r Panel a Swyddogion wedi bod yn awyddus i leihau'r gorwariant hwn ac wedi llwyddo i leihau gwariant ymhellach yn 2018/19 i oddeutu £73,000.

3.7 Mae gweithdrefnau mewn grym i fonitro ac olrhain gwariant, a gyda chymeradwyaeth y Panel, mae presenoldeb mewn cynadleddau a

chyfleoedd hyfforddi/datblygu wedi bod yn gyfyngedig i Aelodau fwyaf priodol y Panel.

3.8 Oherwydd cymeradwyo Cynllun Heddlu a Throsedd yng nghyfarfod y Panel ym mis Ionawr 2019, arweiniodd hyn at ohirio'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth 2019. Mae'n briodol i'r Panel gymeradwyo Cynllun Heddlu a Throsedd yr un pryd â'r praesept (Ionawr), felly, wth fynd ymlaen, dylai'r Panel ystyried a oes angen y cyfarfod ym mis Mawrth, gan mai hwn yw'r brif eitem ar y rhaglen; yn amlwg, gall gyfarfodydd arbennig gael eu galw os a phryd mae angen.

3.9 Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r Panel wedi derbyn ei Ddyraniad Grant ar gyfer 2019/20 gan y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, os yw'r dyraniad yr un lefel â 2018/19, ac os yw'r Panel yn cytuno i gael gwared â'r cyfarfod ym mis Mawrth, yna mae Swyddogion yn obeithiol na fydd angen i'r Awdurdod Cynnal ysgwyddo unrhyw orwariant ar y lefelau a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

## 4. DEWISIADAU

4.1 Dim

## 5. YMGYSYLLTU/YMGYNGHORI

5.1 Amherthnasol.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid o £70,975 i'r Awdurdod Cynnal, ar gyfer gweinyddu Panel Heddlu a Throsedd.

## 7. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

7.1 Amherthnasol.

## 8. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

8.1 Amherthnasol.

## 9. POLISÏAU A GWEITHDREFNAU

9.1 Bydd manylion treuliau Aelodau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Panel.

## 10. GOBLYGIADAU O RAN RISG

10.1 Dim.

**Papurau Cefndir:**
Amherthnasol.

**Atodiadau:**
Atodiad 1 – Manylion costau'r Panel ar gyfer 2018/19
Atodiad 2 – Manylion lwfansau a threuliau a dalwyd i aelodau'r Panel ar gyfer 2018/19.

Atodiad 1

**Gwariant Grant y Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer 2018/19**

| | **GWARIANT GWIRIONEDDOL** | **GRANT SYDD AR GAEL** |
|---|---|---|
| COSTAU GWEINYDDOL | 57,039.65 | 53,300 |
| COSTAU AELODAU | 9,281.48* | 11,960 |
| COSTAU CYFIEITHU | 6,491.88 | 5,715 |
| **Cyfanswm** | **£72,813.01** | **£70,975** |

** Mae costau aelodau yn ystyried cyfraniadau YG a didyniadau TAW mewn perthynas â thanwydd*

**Atodiad 2**

Lwfansau a threuliau a dalwyd i Aelodau ar gyfer 2018/19 o 01/04/18 - 31/03/19

| Aelodau | Lwfans | Treuliau |
|---|---|---|
| Pat Astbury | 1,188.00 | 295.55 |
| Y Cyng. Chris Bithell | 495.00 | 175.50 |
| Y Cyng. Dana Davies | 693.00 | 57.50 |
| Y Cyng. Julie Fallon | 693.00 | 0 |
| Matthew Forbes | 297.00 | 0 |
| Y Cyng. Alan Hunter | 594.00 | 0 |
| Y Cyng. Hugh Irving | 693.00 | 144.00 |
| Y Cyng. Eric Jones | 495.00 | 128.25 |
| Y Cyng. Peter Read | 198.00 | 87.30 |
| Y Cyng. Dylan Rees | 594.00 | 123.75 |
| Y Cyng. Neville Phillips | 594.00 | 210.60 |
| John Williams | 594.00 | 194.40 |
| Y Cyng. Nigel Williams | 396.00 | 199.80 |
| **Cyfanswm** | **7524.00** | **1616.65** |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | 17 Mehefin 2019 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Panel Heddlu a Throsedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Dawn Hughes, Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu |
| **TESTUN:** | Adolygiad o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd |
| **ADRODDIAD EITHRIEDIG:** | Heb ei eithrio |

## 1. CRYNODEB A PHWYNTIAU ALLWEDDOL

1.1 Fel yr Awdurdod Cynnal, mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy adolygu aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd yn flynyddol a gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol.

1.2 Mae'r Awdurdod Cynnal wedi adolygu'r aelodaeth yn ddiweddar, yn ôl y gofyn, ac o ganlyniad i newidiadau yng nghydbwysedd gwleidyddol Gogledd Cymru, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Panel wedi newid.

1.3 Fel y gwelwyd yn 2017, nid yw'r nifer o Aelodau Panel fesul Awdurdod Lleol yn gytbwys, ac nid yw'r fethodoleg yn cydnabod degfed aelod. Fodd bynnag, nid yw'r un sail resymegol yn gymwys y tro hwn, gan fod y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr 5 sedd i ffwrdd o gael hawl awtomatig ar gyfer ail Aelod.

1.4 O ganlyniad i gymhwyso gweithdrefnau cydbwyso gwleidyddol yr Awdurdod Cynnal (dau le degol a thalgrynnu i fyny neu i lawr), mae gan y Ceidwadwyr hawl i'r 10fed sedd ac felly mae'r newidiadau canlynol yn gymwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

  Sefyllfa Bresennol: 2 Annibynnol
  Yn dilyn Adolygiad: 1 Annibynnol ac 1 Ceidwadwr

- Cyngor Sir y Fflint

  Aelodaeth Bresennol: 1 Llafur ac 1 Democrat Rhyddfrydol
  Yn dilyn Adolygiad: 1 Llafur ac 1 Annibynnol

1.5 Oherwydd y newidiadau i'r aelodaeth, bydd angen i'r Panel benodi Cefnogwr Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel newydd.

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Bod y Panel yn nodi'r newidiadau i aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd, o ganlyniad i gydbwysedd gwleidyddol Gogledd Cymru.

2.2 Bod y Panel yn penodi Cefnogwr Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel.

## 3. MANYLION YR ADRODDIAD

3.1 Mae'r Awdurdod Cynnal wedi adolygu'r aelodaeth yn ddiweddar gan ddefnyddio'r fethodoleg ganlynol:

- taenlen d'Hondt
- Ffigyrau poblogaeth trigolion 18 oed a throsodd a ddefnyddiwyd ar gyfer y Setliad Grant Cynnal Refeniw 2018/19.
- Nifer o Gynghorwyr fesul grwpiau gwleidyddol fesul Awdurdod Lleol

3.2 O ganlyniad i newidiadau yng nghydbwysedd gwleidyddol Gogledd Cymru, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Panel wedi newid. Fel y gwelwyd yn 2017, nid yw'r nifer o Aelodau Panel fesul Awdurdod Lleol yn gytbwys, ac nid yw'r fethodoleg yn cydnabod degfed aelod. Fodd bynnag, nid yw'r un sail resymegol yn gymwys y tro hwn, gan fod y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr 5 sedd i ffwrdd o gael hawl awtomatig ar gyfer ail Aelod.

Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Gostyngiad yn nifer y Democratiaid Rhyddfrydol o 14 i 12 (Ynys Môn a Sir Ddinbych wedi gostwng o 1 Aelod yr un)
- Gostyngiad yn nifer y Ceidwadwyr o 47 i 46 (Sir Ddinbych)
- Cynnydd yn nifer yr Aelodau Annibynnol o 121 i 124 (+2 yn Sir Ddinbych, + 1 yn Ynys Môn)

3.3 O ganlyniad i gymhwyso gweithdrefnau cydbwyso gwleidyddol yr Awdurdod Cynnal (dau le degol a thalgrynnu i fyny neu i lawr), mae gan y Ceidwadwyr hawl i'r 10fed sedd ac felly mae'r newidiadau canlynol yn gymwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

  Sefyllfa Bresennol: 2 Annibynnol
  Yn dilyn Adolygiad: 1 Annibynnol ac 1 Ceidwadwr

- Cyngor Sir y Fflint

Aelodaeth Bresennol: 1 Llafur ac 1 Democrat Rhyddfrydol
Yn dilyn Adolygiad: 1 Llafur ac 1 Annibynnol

3.4 Cysylltodd y Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol â'r Awdurdodau Lleol yn gofyn am eu henwebiadau. Yn dilyn ymgynghoriad gyda'u Harweinwyr Grŵp, cyflwynwyd yr enwebiadau canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Bydd y Cyng. Alan Hunter yn parhau fel Enwebiad Annibynnol
Y Cyng. Greg Robbins (Ceidwadwyr) i gymryd lle'r Cyng. Julie Fallon (Annibynnol)

- Cyngor Sir y Fflint

Y Cyng. Arnold Woolley (Annibynnol) i gymryd lle'r Cyng. Neville Phillips (Y Democratiaid Rhyddfrydol)

**4. DEWISIADAU**

4.1 Dim.

**5. YMGYSYLLTU/YMGYNGHORI**

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad gydag Arweinwyr Grŵp Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir y Fflint.

**6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

6.1 Dim.

**7. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

7.1 Amherthnasol

**8. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB**

8.1 Dim

## 9. GOBLYGIADAU O RAN RISG

9.1 I gydymffurfio â'r darpariaethau o fewn *Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Rheoliadau Panel yr Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Apwyntiadau a Hysbysiadau) 2012,* mae angen adolygu'r aelodaeth. Os na chyflawnir hyn, gall yr Awdurdod Cynnal fod yn agored i'r posibilrwydd o her i gyfansoddiad y Panel ac unrhyw benderfyniadau/gweithredoedd y gwneir yn y dyfodol.

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL 2019/20

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| <PI5><br></PI5> | | |
| **17 Mehefin 2019** | **Cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl Carl Foulkes** | Prif Gwnstabl Carl Foulkes |
| **17 Mehefin 2019** | **Adolygiad o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| **17 Mehefin 2019** | **Amserlen y Cyfarfodydd Arfaethedig ar gyfer 2019/20** | Dawn Hughes, Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu |
| **17 Mehefin 2019** | **Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2018/19** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| **17 Mehefin 2019** | **Crynodeb o’r cwynion sydd wedi dod i law** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| **30 Medi 2019**<br><br>**9 Rhagfyr 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllideb 2019/20** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid - Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **30 Medi 2019** | **Cyflwyniad gan Wasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint ar y Dull Rheoli Achos Uwch** | Janes Warr, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint |
| **30 Medi 2019** | **Adroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |

| Date | Subject | Responsible Officer (including e-mail address) |
|---|---|---|
| | | |
| **30 Medi 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen Checkpoint** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **9 Rhagfyr 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gronfa Ymyrraeth Gynnar** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **9 Rhagfyr 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan y Tîm Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **9 Rhagfyr 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Rhaglen Gwella Gweithredol** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |
| **27 Ionawr 2020** | **Praesept Arfaethedig ar gyfer 2020/21** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |
| **27 Ionawr 2020** | **Diwygiadau i'r Panel Heddlu a Throsedd** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |
| **I'w Gadarnhau** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Strategaeth Ystadau i Heddlu Gogledd Cymru** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |

This page is intentionally left blank